**CYFRINACHOL**

**YN BAROD AR GYFER Y MILENIWM –
AROLWG O SWYDDOGAETHAU A CHYFRIFOLDEBAU
MEWN TWRISTIAETH YNG NGHYMRU**

Arolygodd y gweithgor ganlyniadau'r ymarfer ymgynghori ar y papur ymgynghorol 'Communication in the Tourism Industry – The Regional Challenge' a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 1998 gan y Bwrdd Croeso a'r Papur Pwnc Strategaeth Twristiaeth Cenedlaethol i Gymru newydd 'Budd Partneriaeth'. Roedd yn amlwg o'r ddau ymarfer ymgynghorol bod diffyg eglurdeb yngl_n â phwy sy'n gwneud beth mewn twristiaeth.

**ARCHWILIO SWYDDOGAETHAU A CHYFRIFOLDEBAU PRESENNOL**
Mae Pennod 3 yr adroddiad yn disgrifio pwy sy'n gwneud beth ar hyn o bryd mewn twristiaeth, gan ddisgrifio gweithgareddau'r Bwrdd Croeso, Cwmnïau Twristiaeth Rhanbarthol, yr Awdurdodau Lleol, y Diwydiant a chyrff eraill sy'n effeithio ar dwristiaeth megis Awdurdod Datblygu Cymru. Ceir crynodeb isod o swyddogaethau'r tair prif haen yn y strwythur:

**Bwrdd Croeso Cymru**
Y Bwrdd Croeso yw'r brif asiantaeth gyhoeddus ar gyfer twristiaeth yng Nghymru a'i swyddogaeth angenrheidiol yw sefydlu cyfeiriad strategol ar gyfer diwydiant sydd ar chwâl. Ei swyddogaethau yw annog pobl i ymweld â Chymru ac annog darparu adnoddau a chyfleusterau twristiaeth yng Nghymru a gwella arnynt. Fel y nodir yn ei ddatganiad cenhadaeth, mae'r Bwrdd Croeso yn ceisio datblygu a marchnata twristiaeth mewn ffyrdd fydd yn rhoi'r manteision economaidd a chymdeithasol gorau i bobl Cymru.

**Cwmnïau Twristiaeth Rhanbarthol**
Sefydlwyd y tri chwmni Twristiaeth Rhanbarthol ym 1991 fel cwmnïau cyfyngedig trwy warant, hynny yw heb fod yn rhannu elw, gan gymryd lle y Cynghorau Twristiaeth Rhanbarthol blaenorol a Swyddfeydd Rhanbarthol y Bwrdd Croeso .

Mae'r tri CTRh yn eidd eu haelodau. Mae'r Bwrdd Croeso wedi ariannu'r CTRh trwy gontractau 5 mlynedd ffurfiol, a barhawyd tra roedd y Bwrdd Croeso'n cynnal arolwg o swyddogaethau'r CTRh. Mae contractau newydd wedi eu llunio o ganlyniad i'r arolwg i sicrhau y caiff arian y Bwrdd Croeso ei wario'n briodol.

Mae swyddogaethau craidd y CTRh fel y'u diffinnir yn y contractau newydd gyda'r Bwrdd Croeso yn cynnwys cynrychioli'r diwydiant, gweithredu fel cynrychiolwyr rhanbarthol y Bwrdd, darparu fforwm ar gyfer cyfathrebu rhwng y diwydiant, awdurdodau lleol a'r Bwrdd Croeso a chynnig gweithgareddau marchnata sy'n gyson â fframwaith strategol y Bwrdd Croeso.

**Yr Awdurdodau Lleol**
Mae'r 22 cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol yn trefnu digwyddiadau sy'n hanfodol i les y diwydiant twristiaeth yng Nghymru. Maent yn cynnal twristiaeth yn uniongyrchol trwy:-

- ariannu a rheoli adnoddau a chyfleusterau hamdden, diwylliannol ac adloniant.
- marchnata cyrchfannau yn y DU a thramor.
- ariannu a rheoli Canolfannau Croeso.
- cefnogi busnesau twristiaeth trwy gyngor a thrwy grantiau mewn rhai achosion.
- trefnu gweithgareddau.

Maent hefyd yn cefnogi twristiaeth yn anuniongyrchol trwy ddarparu seilwaith a chyfleusterau, rheoleiddio datblygiadau a safonau ansawdd, a thrwy hybu a chynnal seilwaith trafnidiaeth digonol.

**AROLWG AC ASESIAD O'R STRWYTHUR PRESENNOL**.
Cynhaliodd y Gweithgor arolwg o effeithlonrwydd y strwythur presennol (Pennod 4). Y prif ganfyddiadau o ran y Bwrdd Croeso, y CTRh a'r Awdurdodau Lleol oedd:-

**Y Bwrdd Croeso**

angen i'r Bwrdd Croeso barhau fel corff strategol ar wahân, gyda'r arbenigedd i ddarparu cyfeiriad ac arweiniad i'r diwydiant

camddealltwriaeth gyffredin o fewn y fasnach mai pwrpas y Bwrdd Croeso oedd cynrychioli'r diwydiant a bod gweithredwyr yn aelodau o'r Bwrdd Croeso trwy aelodaeth o'r CTRh.

ni all y Bwrdd Croeso gynrychioli'r diwydiant gan y byddai hyn yn gwrthdaro â'i bwrpas strategol o wneud y gorau o gyfraniad economaidd a chymdeithasol twristiaeth ar gyfer pobl Cymru.

bydd swyddogaeth y Bwrdd Croeso o ran polisi yn tyfu'n sylweddol gyda dyfodiad y Cynulliad.

mae swyddogaethau craidd y Bwrdd Croeso wedi eu diffinio'n eglur, ond mae angen eu cyfleu yn fwy effeithiol i'r diwydiant.

**Cwmnïau Twristiaeth Rhanbarthol**

- mae gan y CTRh nifer o swyddogaethau sy'n anodd eu cysoni ar sail weithredol, sef eu swyddogaethau fel cyrff sy'n aelodau, cwmnïau y mae'n rhaid iddynt fasnachu'n ddiddyled, a'u swyddogaeth fel cynrychiolwyr rhanbarthol y Bwrdd Croeso.
- mae gan y CTRh swyddogaeth werthfawr i'w chyflawni wrth gynrychioli diddordebau eu haelodau a darparu dull ar gyfer cyflawni cydlyniaeth rhanbarthol, ond gallent gyflawni'r swyddogaeth hon yn fwy effeithiol gyda dim ond un prif reolwr.
- mae statws CTRh yn peri dryswch. Cwmnïau cyfyngedig trwy warant ydynt ac felly nid ydynt yn rhannu elw. Fel cwmnïau fodd bynnag, gallai rhai elfennau yn y sector cyhoeddus eu hystyried yn fygythiad.
- byddai gweithgareddau'r CTRh yn cael eu cyfyngu'n sylweddol pe byddent yn llwyr ddibynnol ar danysgrifiadau aelodau.
- cwmnïau annibynnol yw CTRh a byddai'n rhaid iddynt gytuno ar unrhyw newid yn eu swyddogaethau a'u cylch gorchwyl.

**Yr Awdurdodau Lleol**

Mae gan Awdurdodau Lleol swyddogaeth hanfodol i'w chwarae i hybu lles eu hardaloedd trwy amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys cefnogi twristiaeth.

mae'r graddau y mae awdurdodau lleol yn ymwneud â thwristiaeth yn amrywio'n fawr, yn unol ag anghenion lleol eu hetholwyr. Mae hyn yn cyfrannu tuag at y dryswch presennol o pwy sy'n gwneud beth mewn twristiaeth, ond byddai'n anodd cael ymagwedd unffurf gan mai cyrff sydd wedi'u hethol yn annibynnol yw awdurdodau lleol ac mae pwysigrwydd twristiaeth yn yr economi leol yn amrywio'n sylweddol o awdurdod i awdurdod.

rhaid i'r awdurdodau lleol benderfynu ar eu blaenoriaethau eu hunain ond mae'n bwysig eu bod yn cydnabod pwysigrwydd eu swyddogaeth rheoli cyrchfannau, a'u bod yn derbyn bod gweithio trwy bartneriaethau ar farchnata cyrchfannau yn golygu defnydd mwy effeithlon o adnoddau.

**ANELU AT STRWYTHUR TWRISTIAETH NEWYDD**

Trafododd a gwerthusodd y Gweithgor chwe opsiwn ar gyfer strwythur twristiaeth newydd yng Nghymru a chytunwyd ar un opsiwn i'w archwilio ymhellach. Roedd yr opsiwn a ddewiswyd yn ceisio cyflawni'r egwyddorion canlynol.

Y Bwrdd Croeso i fabwysiadu swyddogaeth fwy strategol.

Awdurdodau lleol i ganolbwyntio ar reoli cyrchfannau a gofal ategol i ymwelwyr a chael eu hannog i weithio ar farchnata cyrchfannau trwy bartneriaethau marchnata rhanbarthol.

yr angen am lais cryf yn y fasnach gydag un corff aelodaeth cenedlaethol – Twristiaeth Cymru wedi ei greu trwy gyfuno aelodaeth y CTRh.

yr angen i annog ymgorffori'r Cymdeithasau Twristiaeth fel canghennau lleol o'r corff aelodaeth cenedlaethol a hefyd y grwpiau sector er mwyn cael un tâl aelodaeth.

Dylai Twristiaeth Cymru gael hierarchaeth strwythuredig o ganghennau lleol, cynghorau rhanbarthol a chyngor cenedlaethol fydd yn gallu cynrychioli'r diwydiant yn briodol. Gallai Twristiaeth Cymru weithredu pwyllgorau sector ar lefel ranbarthol a chenedlaethol i

sicrhau y caiff diddordebau ac anghenion sectorau penodol eu hystyried.

Ceir disgrifiad manwl o'r strwythur arfaethedig hwn ym mhennod 5.

**ARGYMHELLION Y GWEITHGOR I'R GWEINIDOG**
Mae'r Gweithgor yn cynnig yr argymhellion canlynol ar gyfer gwella strwythur presennol twristiaeth i'r Gweinidog eu hystyried.

- Bod y Bwrdd Croeso yn parhau fel y prif gorff strategol ar gyfer twristiaeth, a'i fod yn cadw ac yn ehangu ei bolisi craidd a'i swyddogaeth strategol. Er mwyn cyflawni'r swyddogaeth hon, dylai wella ei bresenoldeb yn y rhanbarthau yn gymedrol.

- Bod corff aelodaeth cenedlaethol newydd Twristiaeth Cymru yn cael ei greu i gynrychioli'r diwydiant Twristiaeth ar lefel genedlaethol, rhanbarthol, lleol ac adrannol. Bydd gan hyn oblygiadau o ran y fasnach, y cwsmer a'r defnydd o adnoddau ac felly argymhellir comisiynu astudiaeth werthuso fanwl annibynnol i archwilio'r argymhellion. Dylai'r astudiaeth asesu'r dull gorau o greu'r corff newydd yn nhermau gwerth am arian ac effeithiolrwydd ac ystyried y goblygiadau hir dymor i'r diwydiant gan gynnwys sicrhau perchenogaeth gan y diwydiant.

- Bod awdurdodau lleol yn cael eu hannog i ystyried canolbwyntio eu gweithgareddau cefnogi twristiaeth ar reoli cyrchfannau integredig o safon gan gynnwys rheoli ymwelwyr, gofal ategol a gwybodaeth a sicrhau bod y seilwaith a'r cyfleusterau sylfaenol ar gael i gwrdd ag anghenion ymwelwyr. Dylent hefyd gael eu hannog i barhau i ddatblygu yr ymagwedd Partneriaeth Marchnata Ranbarthol/Ardal ymhellach gan weithio gyda'r Bwrdd Croeso a'r corff newydd Twristiaeth Cymru.

- Bod arian digonol yn cael ei ddyrannu i awdurdodau lleol er mwyn eu galluogi i reoli cyrchfannau integredig o safon.

- Y dylid croesawu bwriad datganedig y Gweinidog o sefydlu Fforwm Twristiaeth Cenedlaethol i Gymru fel ffordd o wella cydlyniaeth a chyfathrebu rhwng y cyrff allweddol.

**1.0 CYFLWYNIAD**
1.1 Ym mis Chwefror 1999, ar wahoddiad y Gweinidog Peter Hain, sefydlodd y Bwrdd Croeso weithgor i egluro'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau mewn twristiaeth, o dan gadeiryddiaeth Ian Rutherford, Aelod o Fwrdd y Bwrdd Croeso . Roedd y gweithgor hwn i adrodd yn ôl i'r Gweinidog erbyn diwedd mis Mawrth gyda'u canfyddiadau a'u hargymhellion.

1.2 Roedd aelodaeth y gweithgor yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Bwrdd

Croeso, y Cwmnïau Twristiaeth Rhanbarthol (CTRh), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r cyrff masnach – ceir rhestr o aelodau'r gweithgor yn Atodiad 1.

1.3 Cylch gorchwyl penodol y gweithgor fel y pennwyd gan y Swyddfa Gymreig yw:-

> i) archwilio ac egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau Bwrdd Croeso Cymru, y Cwmnïau Twristiaeth Rhanbarthol a'r awdurdodau lleol;
>
> arolygu ac asesu effeithiolrwydd y strwythur presennol a gweithgareddau'r tri chorff hyn;
>
> nodi unrhyw feysydd lle y gellir gwella ar y strwythur presennol gan gynnwys unrhyw newidiadau posibl i'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau sydd eisoes yn bodoli;
>
> darparu adroddiad ac argymhellion ysgrifenedig i Mr Hain erbyn 31 Mawrth 1999.

Er bod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Bwrdd Croeso, y CTRh a'r ALl, er mwyn deall strwythur presennol twristiaeth yn drylwyr, ymdrinnir â swyddogaeth y cyrff masnach a'r cymdeithasau twristiaeth hefyd yn fyr.

1.4 Mewn marchnad cynyddol gystadleuol, y cyrchfannau hynny y mae eu diwydiant a'u strwythurau twristiaeth wedi eu trefnu'n effeithlon i wneud y defnydd gorau o'u hadnoddau fydd yn ffynnu.

**2.0 CEFNDIR**

2.1 Canlyniad proses esblygol dros gyfnod o 30 mlynedd yw strwythur a dosbarthiad presennol cyfrifoldebau mewn twristiaeth. Mae tystiolaeth glir, fodd bynnag, nad yw'r diwydiant yng Nghymru, sefydliadau eraill yng Nghymru, gwleidyddion a'r llywodraeth yn glir yngl_n â phwy sy'n gwneud beth ar gyfer twristiaeth yng Nghymru. Mae'r dystiolaeth hon yn anecdotaidd yn ogystal â deillio o'r adborth o'r broses ymgynghorol sy'n digwydd fel rhan o ddatblygiad y Strategaeth Twristiaeth newydd i Gymru a chan Hansard.

2.2 Mae'r dryswch hwn yngl_n â swyddogaethau a chyfrifoldebau yn deillio'n rhannol o natur esblygol y diwydiant rydym yn gweithredu ynddo ac o'r cyrff sy'n rhan ohono. Mae pob un wedi datblygu ei swyddogaeth ei hun o fewn y diwydiant dros y blynyddoedd.

2.3 Nid oes amheuaeth bod rhywfaint o ddyblygu yn ogystal â bylchau yn y ddarpariaeth o ganlyniad i ddiffyg cydlynu gweithgareddau.

2.4 Ym mis Gorffennaf 1998 cyhoeddodd Prif Weithredwr y Bwrdd Croeso ar y pryd bapur ymgynghorol 'Communication in the Tourism Industry – The Regional Challenge' oedd yn cynnig syniadau ar gyfer cryfhau'r berthynas rhwng y Bwrdd Croeso, y CTRh, cymdeithasau twristiaeth lleol a'r diwydiant. Y pwyntiau allweddol yn y papur hwn oedd:-

annog busnesau twristiaeth i fod yn aelodau o gymdeithas twristiaeth leol, a ddylai hefyd fod yn rhan o'r CTRh

anelu at gael pob busnes twristiaeth yng Nghymru yn rhan o'r Bwrdd Croeso trwy eu haelodaeth o CTRh

CTRh i gymryd rhan lawn ym musnes y Bwrdd Croeso ac i gyfathrebu trwy'r CTRh pryd bynnag y bo'n ymarferol

cryfhau swyddogaeth y CTRh fel presenoldeb gweledol y Bwrdd Croeso yn gyhoeddus yn lleol

cydnabod swyddogaeth ddeuol y CTRh i weithredu fel fforwm ar gyfer disgwyliadau a chymwysiadau partneriaid, masnach, awdurdodau lleol a'r Bwrdd Croeso ac i fod yn gorff aelodaeth cynrychioladol o'r fasnach dwristiaeth yn y rhanbarthau

defnyddio canlyniadau ymgynghoriadau yngl_n â'r cynigion yn y papur i ailarchwilio cyfansoddiad y CTRh a gwneud newidiadau i aelodaeth er mwyn adlewyrchu blaenoriaethau newydd

tra'n cydnabod bod y berthynas strategol sy'n bodoli rhwng y Bwrdd Croeso a phob awdurdod yn bwysig ac yn cwmpasu gwaith a gydlynir yn genedlaethol yn hytrach nag yn rhanbarthol, dylid cynnal busnes yn gynyddol trwy'r CTRh. Byddai angen i awdurdodau lleol sicrhau bod y lefelau amrywiol o gysylltiad sydd ganddynt gyda'r Bwrdd Croeso a'r CTRh wedi eu cydlynu

Twristiaeth De a Gorllewin Cymru i greu dau sefydliad aelodaeth a marchnata i gyfateb â rhanbarthau economaidd newydd De Ddwyrain a De Orllewin Cymru

teitlau mwy eglur ar gyfer CTRh sy'n pwysleisio natur ategol y berthynas rhwng y Bwrdd Croeso a'r CTRh (ee Bwrdd Croeso Cymru'r Gogledd) gyda brand a logo cyffredin

2.5 Roedd yr ymatebion i'r papur hwn yn amhendant. Yn bennaf, roedd y sylwadau'n cynnwys y canlynol:-

angen mwy o eglurder o ran swyddogaeth a chyfrifoldebau'r Bwrdd Croeso, CTRh ac awdurdodau lleol;

pryder yngl_n ag a allai CTRh fel cwmnïau cyfyngedig preifat sydd â diddordebau masnachol,

weithredu fel ‘asiantaethau’r Bwrdd Croeso ar lefel sylfaenol’. A yw cwmni masnachol preifat yn dderbyniol fel cynrychiolydd asiantaeth y sector cyhoeddus?

awgrym y dylai’r Bwrdd Croeso ystyried sefydlu ei sefydliadau rhanbarthol ei hun i gwmpasu materion strategol/datblygu wrth i CTRh barhau i ganolbwyntio ar faterion masnachol/aelodaeth;

awydd gyffredinol i symud tuag at strwythur sefydliadol clir i dwristiaeth fyddai o fudd i’r diwydiant;

angen am gysylltiadau uniongyrchol a

gweithredol rhwng y Bwrdd Croeso ac awdurdodau lleol gael eu cryfhau yn hytrach na’u gwanhau trwy gynnwys y CTRh yn ehangach

2.6 Yn yr ymarfer ymgynghori diweddar ar Strategaeth Twristiaeth Genedlaethol Cymru, cafwyd sawl cwestiwn perthnasol yn y Papur Pwnc ‘Budd Partneriaeth’:-

> "7. *Beth fwy sydd angen ei wneud i sicrhau fod gweithgaredd marchnata’r Bwrdd Croeso, Cwmnïau Twristiaeth Rhanbarthol, awdurdodau lleol a’r diwydiant yn ategol ac wedi’u cydlynu i wneud y defnydd gorau o’r adnoddau sydd ar gael?*"
>
> "8. *Sut y gallwn annog partneriaethau marchnata mwy effeithiol rhwng gweithredwyr twristiaeth unigol?*"
>
> "9. *Sut y medrir gwneud trefniadau cyfathrebu’n fwy effeithlon o fewn y diwydiant i gefnogi trafodaeth a rhannu gwybodaeth yn fwy eang?*"
>
> "11. *Gellid dadlau mai dynodi "Pwy Sy’n Gwneud Beth" yn y diwydiant twristiaeth fydd canlyniad pwysicaf yr ymarferiad ymgynghorol strategaeth hwn. A fedrir disgwyl i’r rhai sy’n ymwneud â’r diwydiant ddod i gytundeb ar y pwnc hollbwysig hwn neu a oes angen ateb deddfwriaethol?*"

2.7 Caiff yr ymatebion i’r cwestiynau hyn sy’n berthnasol i faterion ‘pwy sy’n gwneud beth’ eu crynhoi isod:-

Diffiniad mwy eglur o swyddogaethau, mwy o gydweithio a mwy o ymgynghori o fewn y diwydiant.

Dirprwyo mwy effeithiol gan y Bwrdd Croeso .

Cydnabyddiaeth eang y byddai’r diwydiant yn elwa o weld mentrau mwy cydweithredol wedi eu harwain gan gonsortia yn cael eu mabwysiadu rhwng darparwyr twristiaeth, ond amrywiaeth barn yngl_n ag a ddylai’r diwydiant ei hun gymryd yr arweiniad neu yr ALl/CTRh.

Ni ddylai’r Bwrdd Croeso gael ei weld fel corff sy’n cynrychioli’r diwydiant twristiaeth. Mae’n atebol i’r Cynulliad ac nid i’r fasnach.

Dylai Cwmnïau Twristiaeth Rhanbarthol gynnwys mwy o fewnbwn gan gyrff cymunedol â diddordeb ac roedd angen gwella strwythur twristiaeth rhanbarthol y Bwrdd Croeso, a’i gysylltu’n fwy gydag awdurdodau lleol a chymdeithasau masnach.

Mae rhan yr awdurdod lleol ar Fyrddau’r CTRh yn arwain at wrthdaro o ran buddiannau.

Dylid ailsefydlu pwyllgorau ymgynghorol y Bwrdd Croeso a chyhoeddi eu trafodaethau. Dylai’r Bwrdd Croeso ac eraill hefyd ystyried sefydlu Mentrau twristiaeth cydweithredol lleol ymysg gweithredwyr bach iawn yn yr ardaloedd gwledig.

Gwahaniaeth barn yngl_n ag a ddylai’r Bwrdd Croeso gael swyddogaeth strategol gref a swyddogaeth weithredol lai o bosibl neu a ddylai gryfhau ei swyddogaeth ranbarthol.

Dylai’r diwydiant twristiaeth yng Nghymru gael cynrychiolaeth gref yn y Cynulliad newydd a dylai weithredu a siarad ag un llais cytûn heb fod yn rhanedig.

Mae’n bwysig bod swyddogaeth twristiaeth mewn awdurdodau lleol o fewn Datblygiad Economaidd er mwyn codi ei broffil ymhellach fel gweithgaredd economaidd o bwys.

Dylai penderfyniadau a chyfrifoldebau creu polisïau o fewn y diwydiant fod yn amlwg.

Dim ond yn wirfoddol trwy’r diwydiant y gellir cyflawni’r dasg o nodi pwy sy’n gwneud beth o fewn twristiaeth a byddai unrhyw ddeddfwriaeth a orfodwyd o’r tu allan yn rhy llym. Gallai strwythur ddeddfwriaethol fod yn briodol yng nghyd-destun swyddogaeth awdurdodau lleol.

2.8 Mae’n amlwg o’r ddau ymarfer ymgynghorol bod diffyg eglurder yngl_n â phwy sy’n gwneud beth mewn twristiaeth. Swyddogaeth y gweithgor oedd asesu a oedd y diffyg eglurder hwn yn broblem o ddiffyg cyfathrebu, neu’n broblem strwythruol o gyfrifoldebau’n gorgyffwrdd a chydlynu aneffeithiol.

**3.0 PWY SY’N GWNEUD BETH AR HYN O BRYD**

**3.1 Cyflwyniad**
Mae’r bennod hon yn disgrifio’r sefyllfa yng Nghymru ar hyn o bryd o ran pwy sy’n gwneud beth, gyda’r bwriad o ddiffinio swyddogaethau a chyfrifoldebau’r Bwrdd Croeso, y Cwmnïau Twristiaeth Rhanbarthol a’r awdurdodau lleol. Er mwyn darparu darlun cynhwysfawr, trafodir swyddogaethau cyrff eraill o fewn twristiaeth yn fyr. Disgrifir swyddogaeth pob un o’r tri phrif haen yn y strwythur ynghyd â swyddogaethau’r cyrff eraill.

**3.2 Bwrdd Croeso Cymru**
3.2.1 Sefydlwyd y Bwrdd Croeso o dan y Ddeddf Datblygu Twristiaeth 1969.

> Y Bwrdd Croeso yw’r brif asiantaeth gyhoeddus ar gyfer twristiaeth yng Nghymru a’i swyddogaeth hanfodol yw dod ag arweiniad strategol i ddiwydiant sydd ar chwâl. Ei swyddogaethau yw annog pobl i ymweld â Chymru ac annog darparu adnoddau a chyfleusterau twristiaeth yng Nghymru a gwella arnynt.

3.2.2 Datganiad cenhadaeth y Bwrdd fel y nodir ynTwristiaeth 2000 yw:-

> "Nod Bwrdd Croeso Cymru yw datblygu a marchnata twristiaeth mewn ffyrdd fydd yn rhoi’r budd economaidd a chymdeithasol mwyaf i bobl Cymru.
>
> Yn ymhlyg o fewn y nod hwn mae’r angen i:-
>
> gynnig safonau uchel o ansawdd cynnyrch a gwasanaeth;
>
> cynnal a hyrwyddo diwylliant Cymru a’r iaith Gymraeg;
>
> diogelu a hybu’r amgylchedd naturiol ac adeiledig.

3.2.3 Cyflawnir y datganiad cenhadaeth hwn trwy’r swyddogaethau canlynol:-

> paratoi fframwaith strategol i farchnata Cymru fel cyrchfan i dwristiaid yn y Deyrnas Unedig
>
> hysbysebu delwedd unigryw ac atyniadol o Gymru fel cyrchfan i dwristiaid mewn marchnadoedd allweddol a dargedir
>
> cynllunio a chytuno ar ymagwedd gydlynol tuag at farchnata Cymru mewn marchnadoedd allweddol o fewn y Deyrnas Unedig a thramor mewn partneriaeth â’r Awdurdod Twristiaeth Prydeinig, Cwmnïau Twristiaeth Rhanbarthol,

awdurdodau lleol a’r sector preifat

darparu fframwaith strategol i ddatblygu twristiaeth yng Nghymru a darparu cymorth ariannol i annog buddsoddi (gan gynnwys cyfalaf) mewn cyfleusterau twristiaeth newydd a gwell.

gosod safonau ansawdd ar gyfer y diwydiant twristiaeth yng Nghymru i wella safonau cystadleuol a hybu dewis i ddefnyddwyr

gwneud gwaith ymchwil i werthuso perfformiad, monitro tueddiadau’r

farchnad a helpu’r diwydiant i gynllunio’n briodol

darparu cyngor a gwybodaeth i’r Llywodraeth ar berfformiad y diwydiant ac ar faterion twristiaeth sy’n effeithio ar Gymru

datblygu strategaeth gwybodaeth i dwristiaid ar gyfer Cymru a chydlynu safonau ar gyfer rhwydwaith y Canolfannau Croeso yng Nghymru

3.2.4 Yn ogystal â’r swyddogaethau craidd hyn, mae’r Bwrdd Croeso hefyd yn darparu cyngor technegol i awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus eraill, datblygwyr a gweithredwyr, ac yn ceisio cydlynu gweithredu strategaeth hyfforddi twristiaeth trwy’r Fforwm Hyfforddi Twristiaeth cenedlaethol. Mae gan y Bwrdd Croeso staff rhanbarthol ym Mae Colwyn (7) a Machynlleth (1 a swyddog ar secondiad).

**3.3 Cwmnïau Twristiaeth Rhanbarthol**

3.3.1 Sefydlwyd y tri Chwmni Twristiaeth Rhanbarthol ym 1991 fel cwmnïau cyfyngedig trwy warant, hynny yw heb fod yn rhannu elw, gan gymryd lle y Cynghorau Twristiaeth Rhanbarthol blaenorol a Swyddfeydd Rhanbarthol y Bwrdd Croeso. Y rhesymeg y tu ôl i lunio’r cwmnïau newydd hyn oedd:-

* rhoi perchenogaeth ranbarthol

* ystyried bod marchnata rhanbarthol yn un o swyddogaethau di-graidd y Bwrdd Croeso

* goresgyn cyfyngiadau cyllid a niferoedd staff y Bwrdd Croeso ac felly’r pwysau i drosglwyddo staff y Canolfannau Croeso a staff rhanbarthol o’r Bwrdd Croeso

3.3.2 Eu haelodau yw perchenogion y tri CTRh ac mae ganddynt nifer o swyddogaethau tebyg i’r Byrddau Twristiaeth Rhanbarthol yn Lloegr a’r Byrddau Twristiaeth Ardal yn Yr Alban. Mae gan pob un Fwrdd o Gyfarwyddwyr sydd wedi eu rhannu’n gyfartal rhwng y fasnach ac awdurdodau lleol gyda chyfarwyddwyr masnach yn cael eu hethol am gyfnod o dair blynedd a chyfarwyddwyr awdurdodau lleol (aelodau neu swyddogion) yn cael eu henwebu gan eu hawdurdod. Mae gan pob cwmni gyfansoddiad ffurfiol gydag atebolrwydd democrataidd llawn. Ceir copi o’r Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasiad Twristiaeth Canolbarth Cymru yn Atodiad II.

3.3.3 Mae’r CTRh yn derbyn cyfanswm o tua £900,000 o arian craidd gan y

Bwrdd Croeso ac yn llwyddo i gael tua £3.7 miliwn ychwanegol trwy dâl aelodaeth, gweithgareddau masnach a grantiau (yn enwedig o’r Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd). Mae gan y CTRh gyfansoddiad cwmni cyfyngedig trwy warant gyda dyletswydd ar y cyfarwyddwyr i beidio â masnachu mewn dyled. Maent oll, gydag anogaeth y Bwrdd Croeso, wedi ceisio ategu at eu hincwm trwy sefydlu cwmnïau masnachu unigol yn gwerthu gwasanaethau i’w haelodau a’r diwydiant yn gyffredinol.

3.3.4 Mae’r Bwrdd Croeso wedi ariannu’r CTRh trwy gontractau 5 mlynedd ffurfiol, a barhawyd tra roedd y Bwrdd Croeso’n cynnal arolwg o swyddogaethau’r CTRh. Mae contractau newydd wedi eu llunio o ganlyniad i’r arolwg ac mae hyn yn gosod y rhwymedigaethau canlynol ar y CTRh i sicrhau y caiff arian y Bwrdd Croeso ei wario’n briodol:-

Bydd CTRh yn cyflawni'r swyddogaethau a benodir yn y contract gan ddefnyddio yr arian craidd ar gyfer hynny.

Ni fydd y CTRh yn defnyddio dim o'r arian craidd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i gefnogi gweithgareddau masnachol y CTRh neu unrhyw is-gwmni o'r CTRh.

Bydd y CTRh yn cyflwyno cynllun busnes drafft i'r Bwrdd Croeso bob blwyddyn heb fod yn hwyrach na 28 Chwefror fydd yn sail y Cynllun Busnes ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Bydd y CTRh yn cyflwyno adroddiadau chwarterol a blynyddol i'r Bwrdd Croeso yn nodi cynnydd yn erbyn y Targedau Perfformiad.

Bydd gweithwyr dan secondiad o'r Bwrdd Croeso yn cael eu rheoli gan y CTRh.

Bydd y CTRh yn caniatau i aelodau o Fwrdd y Bwrdd Croeso ac uwch swyddogion y Bwrdd Croeso fynychu cyfarfodydd o aelodau a chyfarwyddwyr CTRh.

Bydd CTRh yn caniatau i'r Bwrdd Croeso a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol gael mynediad llawn ar bob adeg resymol ac yn dilyn rhybudd rhesymol, i adeiladau'r CTRh, staff a chofnodion ariannol er mwyn sicrhau bod y CTRh yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau dan y contract o ran eu defnydd o arian craidd.

3.3.5 Swyddogaethau craidd y CTRh fel y'u ddiffinnir

yn y contractau newydd rhwng y Bwrdd Croeso a'r CTRh yw:-

cynrychioli diddordebau'r diwydiant twristiaeth yn ardal y CTRh;

gweithredu fel cynrychiolydd rhanbarthol y Bwrdd Croeso;

datblygu cysylltiadau cryf ac effeithiol gyda a rhwng yr awdurdodau lleol o fewn ardal y CTRh a nodi cyfleoedd i'r CTRh a'r awdurdodau hynny (a'r awdurdodau eu hunain) gydweithio i ddatblygu a marchnata twristiaeth ar ran y diwydiant twristiaeth;

darparu fforwm cyfathrebu rhwng cymdeithasau masnach ac awdurdodau lleol a'r Bwrdd Croeso;

trefnu gweithgareddau marchnata sy'n gyson â fframwaith strategol y Bwrdd Croeso;

casglu a dosbarthu gwybodaeth sy'n berthnasol i dwristiaeth;

cyfleu manteision twristiaeth o fewn ardal y CTRh;

sicrhau cydymffurfiad gyda'r safonau ansawdd cenedlaethol a bennir gan y Bwrdd Croeso;

rheoli Canolfannau Croeso yn unol â'r safonau rhwydwaith a bennir gan y Bwrdd Croeso;

cefnogi ymagwedd strategol tuag at y defnydd o bob ffynhonell ariannol (gan gynnwys y Gymuned Ewropeaidd a'r Loteri Cenedlaethol) sydd ar gael i fentrau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth er mwyn gwneud y gorau o'u budd economaidd a chymdeithasol i Gymru.

3.3.6 Ar hyn o bryd mae'r tri chwmni'n ymgymryd â'r amrywiaeth canlynol o weithgareddau:-

* Marchnata Ôl-ofal yn y Rhanbarth – ciplyfr ystafelloedd gwely; map o atyniadau; ymgyfarwyddo ac ymweliadau gan y wasg.

* Marchnata Rhanbarthol – gwyliau byr; ymgyrchoedd tactegol; ymgyrch grwpiau; ymgyrch ysgolion; arddangosfeydd masnach; ymwelwyr undydd; cynadleddau; carafanau/gwersylla (cyhoeddiad cenedlaethol ar y cyd gan CTRh).

* Marchnata Tramor – arian i gefnogi'r ymgyrchoedd Gwyddelig a Thramor.

* Datblygu Cynnyrch – systemau cadw; rheoli digwyddiadau; cynnyrch penodol-bwrpasol.

* Gwasanaethau Ymwelwyr – rheoli Canolfannau Croeso; ariannu Safleoedd Gwybodaeth Ymwelwyr; archebu gwelyau.

* Gwasanaethau Masnachol – wedi'u lleoli mewn is-gwmnïau ee Market Flair, Cambrian Training a Consultancy.

* Gwasanaethau Dosbarthu – i Ganolfannau Croeso; ymateb i ymholiadau; cyflawni ymgyrchoedd; datblygu arddangosfeydd a reolir o bell.

* Aelodaeth – tanysgrifiadau masnach; tanysgrifiadau ALl; graddio prosesu; placiau; cylchlythyr; rhestrau'r rhyngrwyd; manteision newydd ee bancio.

* Hyfforddi – nodi anghenion hyfforddi; darparu gweithgareddau ategol.

3.3.7 Mae'r cymysgedd cyfrannol o weithgareddau'n amrywio o gwmni i gwmni, gan adlewyrchu anghenion eu rhanbarth. Rhaid rhoi pwyslais sylweddol ar gynnig manteision diriaethol i aelodau er mwyn eu cadw. Ar hyn o bryd mae cyfanswm cronedig yr aelodaeth oddeutu 5,000.

3.3.8 Mae'r CTRh yn chwarae rhan werthfawr wrth ddarparu fforwm lle y gall y Bwrdd Croeso, Sectorau'r Awdurdodau Lleol a gweithredwyr o bob math ddod at ei gilydd.

**3.4 Yr Awdurdodau Lleol**

3.4.1 Mae'r 22 o gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yn cyflawni gweithgareddau y'n hanfodol i les y diwydiant twristiaeth yng Nghymru.

3.4.2 Maent yn cefnogi twristiaeth yn uniongyrchol trwy:-

* ariannu a rheoli amwynderau ac adnoddau hamdden diwylliannol ac adloniadol – o barciau gwledig, canolfannau hamdden i amgueddfeydd ac atyniadau treftadaeth

***** marchnata cyrchfannau yn y DU a thramor – trwy gynhyrchu llyfrynnau, hyrwyddiadau arbennig a mynychu digwyddiadau ac arddangosfeydd. Mae sefydlu ardaloedd marchnata ym 1996 wedi lleihau'r nifer o lyfrynnau sydd ar gael ym marchnad y DU er mwyn bodloni anghenion cwsmeriaid yn fwy effeithiol ac wedi sbarduno mentrau ar y cyd rhwng awdurdodau lleol cyfagos a chysylltiadau partneriaeth cryfach gyda'r Bwrdd Croeso a'r CTRh.

***** ariannu a rheoli Canolfannau Croeso – yn unol â'r safonau rhwydwaith a bennir gan y Bwrdd Croeso a darparu gwybodaeth i ymwelwyr ar ffurf llenyddiaeth ôl-ofal a safleoedd gwybodaeth i ymwelwyr

* cefnogi busnesau twristiaeth – ar ffurf cyngor a thrwy grantiau mewn rhai achosion

* trefnu digwyddiadau – mae nifer o awdurdodau lleol yn trefnu digwyddiadau mawr sy'n apelio at yr ymwelydd. Maent hefyd yn chwarae rhan werthfawr fel perchenogion lleoliadau digwyddiadau gan gefnogi cyrff eraill sy'n darparu digwyddiadau.

Mae awdurdodau lleol hefyd yn cefnogi twristiaeth yn anuniongyrchol trwy:-

* darparu cyfleusterau hanfodol ee meysydd parcio, toiledau, arwyddbyst

* darparu gwasanaethau hanfodol ee glanhau strydoedd, gwaredu sbwriel

* rheoleiddio datblygu a safonau ansawdd trwy gynllunio'r defnydd o dir, iechyd yr amgylchedd, camau atal tân ac yn y blaen

* hybu a chynnal a chadw seilwaith trafnidiaeth briodol gan gynnwys y seilwaith fyrdd lleol, darparu trafnidiaeth gyhoeddus anfasnachol ac arwyddbyst

* addysg a hyfforddiant

3.4.3 Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd gyffredinol i hybu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eu hardaloedd. Maent yn ddemocrataidd atebol i'w cymunedau lleol ac fel sefydliadau amlbwrpas gallant gymryd ymagwedd integredig.

3.4.4 Mae Awdurdodau Lleol ar fin newid y ffordd y gweithredant o'r system bwyllgor draddodiadol i ddull y cabinet o weithredu.

**3.5 Cyrff Eraill sy'n Ymwneud â Thwristiaeth**

**3.5.1 Awdurdod y Parc Cenedlaethol**
Mae'r tri Awdurdod y Parc Cenedlaethol – Eryri, Bannau Brycheiniog ac Arfordir Sir Benfro – yn gweithredu fel awdurdodau cynllunio ar gyfer eu hardaloedd, yn ariannu ac yn rheoli canolfannau gwybodaeth ac yn darparu ac yn cynnal llwybrau troed, rhai meysydd parcio, dehongli ac arwyddion. Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro hefyd yn gweithredu atyniad ymwelwyr.

**3.5.2 Cymdeithasau Twristiaeth**
Mae nifer o gymdeithasau twristiaeth a siambrau masnach lleol yn bodoli led-led Cymru. Gall eu cyfansoddiadau, strwythurau, amcanion, aelodaeth ac arian amrywio ond mae'r mwyafrif yn rhannu nod gyffredinol o gynrychioli diddordebau eu haelodau trwy lobïo a chyfathrebu'n effeithiol. Mae rhai o'r sefydliadau gwirfoddol hyn yn gweithio gyda'i gilydd i ariannu cynlluniau marchnata ac archebu ar y cyd. Yn wahanol i'r siambr fasnach nid oes strwythur cenedlaethol na rhanbarthol ffurfiol sy'n cydlynu ac yn cefnogi gweithgareddau cymdeithasau twristiaeth lleol, er bod y CTRh yn darparu rhywfaint o gydlynu anffurfiol a chefnogaeth i gymdeithasau lleol.

**3.5.3 Grwpiau LEADER**
Mae wyth o grwpiau LEADER yng Nghymru a ariennir o dan Fenter LEADER y Comisiwn Ewropeaidd i ymgymryd â datblygiad gwledig dyfeisgar o'r gwaelod i fyny. Maent yn amrywio o un gr_p i'r llall o ran y rhan a chwaraeant mewn twristiaeth. Mae grwpiau megis SPARC (Gweithredu dros Gymunedau Gwledig De Penfro) a Menter Preseli yn weithredol iawn mewn twristiaeth gyda swyddogion twristiaeth penodol ac maent yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys pecynnu a datblygu cynnyrch, marchnata a darparu seilwaith.

**3.5.4 Awdurdod Datblygu Cymru (WDA)**
Mae Awdurdod Datblygu Cymru yn ceisio sicrhau datblygiad economaidd a gwelliannau amgylcheddol trwy Gymru. Gall y WDA weithio gyda'r sector preifat i helpu i ddenu buddsoddiad newydd yng Nghymru sy'n help i hybu'r amcanion hyn. Gallai hyn olygu rhoi cymorth grant i fusnesau twristiaeth. Maent hefyd yn helpu i ariannu gwelliannau ffisegol i ardaloedd twristiaeth trwy eu Grantiau Gwelliannau Trefol a Grantiau Gwelliannau Amgylcheddol.

3.5.5 **Cyrff Masnach**
Mae'r rhain yn cynrychioli barn a diddordebau sectorau arbennig o'r diwydiant. Rhoddir disgrifiad byr isod o'r prif rai.

i) **Antur Cymru**
Cymdeithas o sefydliadau aelodaeth cenedlaethol a rhanbarthol gydag aelodau'n gweithredu yng Nghymru, sy'n darparu cyfleoedd addysg hyfforddiant a hamddena yn yr awyr agored trwy weithgareddau antur. Fe'i sefydlwyd ym mis Mawrth 1996 ac fe'i datblygwyd o Bwyllgor Ymgynghorol Gwyliau Gweithgarwch y Bwrdd Croeso. Ei swyddogaeth a'i bwrpas yw:-

- monitro, cynghori ac arolygu pob agwedd ar addysg, hyfforddiant a hamddena awyr agored o fewn Cymru, gan gynnwys rhoi cyngor ar Gynllun Gwireddu Awdurdod Gweithgareddau y Bwrdd Croeso
- cyd-drafod gyda chyrff a chenhedloedd cartref eraill
- helpu i ehangu'r farchnad wyliau gweithgaredd a thwristiaeth antur

ii) **British Hospitality Association (BHA)**
Cymdeithas genedlaethol i'r diwydiant gwestai, bwytai ac arlwyo, gyda chyfanswm aelodaeth o oddeutu 25,000 o sefydliadau yn y DU. Mae'r prif bwyslais ar y diwydiant gwestai, lle maent yn cynrychioli barn y sector, grwpiau yn ogystal â gweithredwyr annibynnol, i Whitehall, San Steffan a Brwsel. Gyda dyfodiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, byddant hefyd yn cynrychioli barn eu haelodau i'r Cynulliad ei hun ac i lunwyr barn eraill. Mae gan y BHA bwyllgor adrannol ar gyfer Cymru.

iii) **Gwyliau Prydeinig a Chymdeithas Parciau Cartref (BH&HPA)**
Y gymdeithas fasnachol sy'n cynrychioli parciau hunan ddarpar yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys carafanau gwyliau, cabanau gwyliau, carfanau teithiol, pebyll a phob dull o hunan ddarpar. Mae'r aelodaeth yn cynrychioli 80% o gyfanswm y safleoedd carafanau a hunan ddarpar (cyfanswm o 300,000 o safleoedd) ac yn cynnwys grwpiau mawr megis Rank a Bourne Leisure yn ogystal â'r gweithredwr llai. Mae 300 o barciau yng Nghymru sy'n aelodau a phum cangen ar wahân, bob un â'i Gyfarwyddwr, Cadeirydd a'i bwyllgor trefnu eu hun. Mae'r pum cyfarwyddwr a chadeirydd yng Nghymru yn eistedd ar Bwyllgor Canolog Cymru sy'n cyfarfod 4 gwaith y flwyddyn i gydlynu gweithredu trwy'r wlad. Mae gan BH&HPA Swyddfa Ganolog yng Nghaerloyw. Mae gan BH&HPA gyfrifoldeb i:-

- sicrhau amgylchedd reoleiddiol fuddiol ar gyfer y diwydiant parciau yn y DU;
- darparu cymorth technegol i'w haelodau;
- sicrhau amgylchedd marchnad buddiol ar gyfer y diwydiant parciau;
- darparu amrywiaeth o wasanaethau a chynnig hyfforddiant a datblygu busnes i aelodau;
- cysylltu gyda chyrff sy'n cynrychioli sectorau twristiaeth a hamdden eraill.

**Fforwm Carafanio a Gwersylla Cymru (CCF)**
Mae CCF yn gweithredu 'fforwm' ar gyfer y diwydiant parciau gwyliau, preswyl a chabanau gwyliau. Nid yw, fodd bynnag, yn gweithredu fel sefydliad masnach. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o bob cangen BH&HPAA yng Nghymru (5), cynrychiolwyr o'r Cyngor Carafanau Cenedlaethol, Cyngor Cartrefi Parciau Cenedlaethol (NPHC), y Bwrdd Croeso, y tri Cwmni Twristiaeth Rhanbarthol, awdurdodau lleol Cymru (1), Parciau Cenedlaethol (1), y Clwb Gwersylla a Charafannau a'r Clwb Carafanau. Y bwriad yw cynnwys holl elfennau'r diwydiant parciau gwyliau yng Nghymru, gan gynnwys diddordebau'r sefydliadau gr_p bach, canolig a mawr. Mae'r CCF yn gofalu am bob agwedd ar faterion polisi rheoleiddiol, defnyddwyr a hyrwyddo sy'n effeithio ar y diwydiant yng Nghymru, yn ogystal â chynllunio strategol a datblygu parciau.

**Biwro Gwyliau Fferm**
Prif bwrpas y Biwro Gwyliau Fferm yw hybu'r cysyniad o Dwristiaeth Fferm yn y DU. Mae'n sefydliad rhwydwaith sy'n cynnwys aelodau, grwpiau, rhanbarthau a swyddfa'r Biwro. Mae'n cynnwys dros 1,000 o ffermwyr annibynnol sy'n cynnig llety i ymwelwyr naill ai yn y ffermdy trwy wely, brecwast a phryd gyda'r nos neu mewn bythynnod neu adeiladau fferm hunan- arlwyol.

Mae 15 o grwpiau yng Nghymru gyda 112 o aelodau. Prif swyddogaeth y grwpiau yw marchnata gwyliau fferm yn eu hardal leol, trwy gynhyrchu a dosbarthu llyfryn sy'n rhoi gwybodaeth yngl_n â'r ardal ac yn rhestru ffermydd sy'n aelodau a gwybodaeth yngl_n â phob un ohonynt. Mae'r grwpiau'n archwilio darpar aelodau pan wnânt gais, yn ogystal â phob aelod o'r gr_p yn flynyddol a hefyd yn sicrhau bod pob eiddo wedi ei gymeradwyo gan y Bwrdd Croeso. Mae'r grwpiau'n cwrdd trwy Gymru gyfan ddwywaith y flwyddyn ac yn penodi cynrychiolydd rhanbarthol sydd, gyda'r cynrychiolwyr rhanbarthol eraill yn ffurfio Bwrdd Cyfarwyddwyr y Biwro Gwyliau Fferm.

Prif waith y Biwro Gwyliau Fferm yw marchnata twristiaeth fferm yn y DU, cynhyrchu llyfryn blynyddol, gweithredu fel canolbwynt

i dwristiaeth fferm, sicrhau safonau uchel trwy gysylltu â'r Byrddau Croeso Cenedlaethol a chyfnewid gwybodaeth gyda chyrff cenedlaethol eraill.

**Cymdeithas Gweithredwyr Hunan-Ddarpar Cymru (WASCO)**
Wedi'i sefydlu ym 1994, mae'r aelodaeth yn agored i bob person sy'n berchen, yn rheoli neu'n gosod eiddo (p'un ai eu hunain neu ar ran eraill) yng Nghymru, ar wahân i garafanau neu bebyll, i'w defnyddio fel llety i ymwelwyr. Rhaid i lety'r aelodau gael eu graddio gan y Bwrdd Croeso o fewn blwyddyn o ymuno â'r Gymdeithas. Gweithredir materion y Gymdeithas gan gyngor o 12 aelod – chwech ohonynt sydd â phrif leoliad eu busnesau yng Ngogledd Cymru a chwech o Dde Cymru. Amcanion penodol WASCO yw:-

cynrychioli diddordebau cyfun yr aelodau;

darparu gwasanaeth gwybodaeth i aelodau ar bob mater sy'n effeithio ar weithrediad eu usnes hunan ddarpar;

hybu'r defnydd o lety hunan ddarpar yr aelodau (os yw wedi ei raddio) ac annog, hybu a chynnal safonau uchel trwy'r diwydiant hunan ddarpar yng Nghymru;

ch) cael manteision gan gyflenwyr nwyddau a gwasanaethau i'r aelodau;

ymuno â neu ddod yn aelod o sefydliadau eraill a all hybu amcanion y sefydliad neu'r aelodau;

trefnu cynadleddau, seminarau neu weithdai ar gyfer aelodau ac eraill ar unrhyw faterion sy'n cael effaith ar fusnesau hunan ddarpar.

**Cymdeithas Atyniadau Ymwelwyr Cymru (WAVA)**

Mae ganddi fwy na 70 o aelodau. Prif bwrpas y gymdeithas yw:-

i) chwilio am wybodaeth sydd o ddefnydd i'r aelodau a'i rhannu;

ii) cynrychioli diddordebau atyniadau pryd bynnag a lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

Maent yn gweithio gyda'r Bwrdd Croeso ar hyn o bryd ar ddatblygu cynllun

achredu ar gyfer atyniadau, sy'n debyg i'r un a weithredir yn yr Alban.

**3.3.6 Cynghrair Twristiaeth Cymru**
Gyda dyfodiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, cydnabu cyrff masnachol a'r cwmnïau twristiaeth rhanbarthol bod angen llais unedig ar y diwydiant twristiaeth a allai gynrychioli barn y diwydiant twristiaeth yn ei gyfanrwydd i'r Cynulliad. Cymerodd y BHA arweiniad trwy alw cyfarfod ym mis Tachwedd y llynedd i lunio Cynghrair Twristiaeth Cymru. Bydd yn fodd o roi pwysau y tu ôl i gynrychiolwyr cymdeithasau unigol pan fyddant yn gytûn. Mae'r Gynghrair wedi llunio cyfres o bwyntiau lobïo, sydd wedi'u hanelu at sicrhau bod y rhai hynny sy'n debygol o fod yn amlwg yn y Cynulliad yn cytuno y dylai pwysigrwydd economaidd ein diwydiant gael ei gydnabod yn llawn yn y trefniadau ar gyfer pwyllgorau pwnc ac ar gyfer ymgynghori.

## 4.0 AROLWG AC ASESIAD O EFFEITHIOLRWYDD Y STRWYTHUR PRESENNOL

### 4.1 Cyflwyniad

4.1.1 Bwriad y bennod hon yw arolygu ac asesu effeithiolrwydd strwythur a gweithgareddau presennol y Bwrdd Croeso, y CTRh a'r ALl. Heb amheuaeth mae'r holl gyrff hyn wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr iawn i ddatblygiad twristiaeth yng Nghymru dros y blynyddoedd. Mae'r arolwg hwn yn canolbwyntio ar y meysydd hynny y gellir eu gwella i alluogi'r cyrff priodol i gyflawni eu swyddogaethau yn fwy effeithiol.

**4.2 Bwrdd Croeso Cymru**

4.2.1 O gofio graddfa fychan a natur dameidiog y diwydiant twristiaeth mae angen clir am gorff strategol i ddarparu cyfeiriad ac arweiniad. Mae hefyd yn hanfodol cael corff cenedlaethol gyda'r arbenigedd i gynghori'r llywodraeth a'r Cynulliad arfaethedig ar anghenion y diwydiant a'i ddatblygiad yn y dyfodol.

4.2.2 Ni all y Bwrdd Croeso gan ei fod yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol, ac yn gangen o'r Llywodraeth, lobïo'r Llywodraeth ac felly ni all weithredu fel corff cynrychioliadol ar gyfer y fasnach.

4.2.3 Fodd bynnag, ceir camargraff cyffredin o fewn y fasnach mai pwrpas y Bwrdd Croeso yw cynrychioli'r diwydiant a bod gweithredwyr yn aelodau o'r Bwrdd Croeso trwy eu haelodaeth o'r Cwmnïau Twristiaeth Rhanbarthol. Ni all ac ni ddylai'r Bwrdd Croeso fod yn gorff cynrychioliadol o'r diwydiant gan y byddai hyn yn groes i'w bwrpas strategol i wneud y gorau o gyfraniad economaidd a chymdeithasol twristiaeth i bobl Cymru. I ddangos enghraifft o'r gwrthdaro hwn, gall gorgynhwyster sylweddol fodoli mewn sector o'r diwydiant sy'n darparu ar gyfer marchnad sydd wedi bod yn dirywio ers peth amser, yr ymateb strategol i hyn fyddai ailgyfeirio adnoddau i sectorau sy'n darparu ar gyfer marchnadoedd sy'n tyfu a gadael i'r gweithredwyr llai effeithiol yn y sector sy'n dirywio ddiflannu yn sgîl grymoedd y farchnad. Byddai disgwyl i'r corff cynrychioliadol fodd bynnag geisio cefnogi eu haelodau yn y sector arbennig hon trwy alw am help gan y llywodraeth a cheisio defnyddio adnoddau i geisio cynnal y sector.

4.2.4 Bydd cael gwared ar y camargraff hon o swyddogaeth a phwrpas y Bwrdd Croeso yn gwella cyfathrebu rhwng y Bwrdd Croeso a'r fasnach, gan sicrhau bod y Bwrdd Croeso fel sefydliad yn canolbwyntio ar ei brif bwrpas yn hytrach na chael ei dynnu i gyfeiriadau gwahanol, ac felly sicrhau bod adnoddau'n parhau i gael eu defnyddio'n effeithiol.

4.2.5 Mae sefydlu'r Gynghrair Twristiaeth yng Nghymru yn nodi'n glir yr angen am gorff cynrychioliadol cenedlaethol i gynrychioli'r diwydiant twristiaeth ac i lobïo'r Cynulliad a'r Bwrdd Croeso ar ei ran.

4.2.6 O ran atebolrwydd a democratiaeth, mae'r Bwrdd Croeso'n atebol ar hyn o bryd i'r Ysgrifennydd Gwladol a bydd maes o law yn atebol i'r Cynulliad gan adrodd yn ôl i bwyllgor neu is-bwyllgor o'r Cynulliad. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi tynnu sylw at y ffaith nad oes cynrychiolydd o'r awdurdod lleol ar y Bwrdd. Mae gan yr Awdurdodau Lleol ran allweddol i'w chwarae ac mae'n bosibl fod ganddynt achos dros gael cynrychiolaeth ar y Bwrdd.

4.2.7 Mae swyddogaeth polisi y Bwrdd Croeso yn debygol o dyfu'n sylweddol gyda dyfodiad y Cynulliad Cenedlaethol. Ers i'r llywodraeth newid bu galw cynyddol ar y Bwrdd Croeso i ymateb i bapurau ymgynghorol, a hefyd i fod yn rhan gynyddol o fforymau strategaeth/polisi amrywiol megis y Fforymau Economaidd Rhanbarthol. Pan fydd y Cynulliad wedi ei sefydlu bydd angen ateb ymholiadau a chwestiynau gan aelodau'r Cynulliad a rhoi mwy o bwyslais ar ddarparu cyngor polisi. Nid oes gan y Bwrdd Croeso ddigon o adnoddau ar hyn o bryd i gyflawni'r swyddogaeth bolisi hon a bydd yn rhaid dod o hyd i adnoddau ychwanegol i gwrdd â'r galw hwn.

4.2.8 Mae swyddogaethau craidd y Bwrdd Croeso wedi eu diffinio'n eglur. Mae'r dryswch yngl_n â hwy'n deillio o fethiant i'w cyfathrebu'n briodol i'r diwydiant ac i bobl Cymru. Mae angen i'r Bwrdd Croeso ymdrin â'r mater hwn.

4.2.9 Mae'r Bwrdd Croeso hefyd yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau y gellir eu hystyried yn weithgareddau di-graidd a allai wneud swyddogaethau craidd y Bwrdd yn aneglur ac felly arwain at ddryswch. Mae'r rhain yn cynnwys:

* sylwadau ar arwyddbyst

* rheoli Cynlluniau Sicrhau Ansawdd

* ymdrin â chwynion

* cydlynu gweithredu'r strategaethau twristiaeth

rhanbarthol unigol er y bydd angen i'r Bwrdd Croeso barhau i sicrhau cydlyniaeth rhwng y strategaethau fel rhan o'i waith strategol creiddiol

4.2.10 Dylai’r Bwrdd Croeso arolygu’r gweithgareddau di-graidd hyn er mwyn:-

cadarnhau ei fod yn weithgaredd pwysig ar gyfer cefnogi neu ddatblygu twristiaeth;

cadarnhau ei fod yn cwrdd â galw penodol yn y farchnad;

sefydlu a all sefydliad neu gwmni masnachol arall ei wneud yn fwy cost-effeithiol.

4.2.11 Er mwyn datganoli’r swyddogaethau di-graidd hyn bydd angen trosglwyddo arian i’w cyflawni.

4.3 **Cwmnïau Twristiaeth Rhanbarthol**

4.3.1 Mae gan y Cwmnïau Twristiaeth Rhanbarthol nifer o swyddogaethau sy’n anodd eu cysoni ar sail weithredol, ac sy’n creu tensiynau parhaus, sef eu swyddogaeth fel cyrff aelodaeth, cwmnïau â gorfodaeth i fasnachu’n ddiddyled, a’u swyddogaeth fel cynrychiolwyr rhanbarthol y Bwrdd Croeso. Mae’n dystiolaeth o allu’r Cyfarwyddwyr Rheoli presennol eu bod wedi llwyddo i gadw cydbwysedd rhwng y swyddogaethau hyn hyd yma. Os mai i’w haelodau y mae cyfrifoldeb y cwmnïau yn y pen draw, fel yr awgryma eu cyfansoddiadau, a yw’n bosibl iddynt gysoni hyn â gweithredu fel cynrychiolwyr y Bwrdd Croeso o fewn y rhanbarthau? Mae’n rhaid i’r Bwrdd Croeso fel Corff Cyhoeddus Anadrannol gymryd ymagwedd strategol hir dymor tuag at ddatblygu’r diwydiant twristiaeth, a all o bryd i’w gilydd wrthdaro â diddordebau sectorau o’r diwydiant sy’n aelodau o’r cwmni. Gallai’r Cwmnïau Twristiaeth Rhanbarthol, fodd bynnag, barhau i ymgymryd â gwasanaethau masnachol sy’n ymwneud â materion gweithredol ar ran y Bwrdd Croeso ar sail contractau penodol, ond mae gwrthdaro sylweddol o ran buddiannu wrth gynrychioli’r Bwrdd Croeso ar faterion polisi o fewn y rhanbarth. Y dilema na all corff gael dau feistr heb golli ffocws sydd wrth wraidd y dryswch o ran strwythurau presennol twristiaeth ac fel y nodwyd eisoes mae hefyd yn berthnasol i raddau yn nhermau amgyffrediad o’r Bwrdd Croeso ei hun o leiaf.

4.3.2 Mae gan y Cwmnïau Twristiaeth Rhanbarthol, fodd bynnag, ran werthfawr i’w chwarae wrth gynrychioli diddordebau eu haelodau a darparu dull i gyflawni cydlyniaeth ranbarthol, ond gallant ymgymryd â’r gwaith hwn yn fwy effeithiol petai ganddynt ond un meistr.

Ffynhonnell arall o ddryswch yw camddealltwriaeth yngl_n â statws y CTRh:-

- Cred gamarweiniol gan rai y byddai CTRh yn rhydd o "gymhorthdal" y Bwrdd Croeso wedi cyfnod o 5 mlynedd (cf TQS). Ni fu hyn erioed yn fwriad gan y Bwrdd Croeso na’r CTRh ar adeg ymgorffori, ond fe allai’r ffaith nad ydynt wedi cyflawni’r targed ffug hwn arwain at y gred fod rhai CTRh yn "dreth" ar adnoddau.
- Gan eu bod wedi tyfu y tu hwnt i ffin gyfforddus eu dyraniad o arian craidd, mae angen y CTRh am gyfalaf gwaith wedi cynyddu’n sylweddol. Gan nad oes ganddynt y gallu i godi cyfalaf cyfrannol o gwbl, mae angen iddynt gynhyrchu gwargedion o’u gweithgareddau i ddarparu’r arian hwn i’w ailfuddsoddi. Bu’n rhaid i Gynghorau Hyfforddiant a Menter yng Nghymru wneud yr un math o beth (ac maent hwythau hefyd wedi cael eu beirniadu).
- Nid yw cwmnïau sy’n gyfyngedig trwy warant yn rhannu elw.
- Mae eu statws yn debyg iawn i elusennau ac yn union debyg i’r Byrddau Twristiaeth Rhanbarthol yn Lloegr a Byrddau Croeso Ardal yn Yr Alban. Fodd bynnag, fel cwmnïau gellir eu gweld fel bygythiad gan rai elfennau yn y sector preifat. Petai’r CTRh yn cael eu hail-enwi’n "Fyrddau" dadleuant na fuasent yn dioddef y fath gyhuddiadau.
- Mae’r CTRh wedi llunio is-gwmnïau masnachol i gael eglurder a gweithgareddau craidd ar ran aelodau, Awdurdodau Lleol a’r Bwrdd Croeso sydd ar wahân i’r rhai hynny sydd o natur fasnachol yn unig. Un pwrpas sylfaenol i’r is-gwmnïau, fodd bynnag, yw bod yn gyfrwng i ddod â mwy o gyfalaf gweithio i’r rhiant CTRh er budd y diwydiant.

4.3.4 Mae pryder bod meini prawf aelodaeth y CTRh yn eu heithrio o’u holl ddiddordebau twristiaeth yn hytrach na’u cynhwyso. Yn hyn o beth, maent yn dilyn ysbryd ac arfer y Bwrdd Croeso yn agos o ran y rhai y dylid eu cynnwys. O ran achrediad fel ‘sine qua non’ aelodaeth llety mae ganddynt 85% i 90% o gyfran y farchnad.

4.3.5 Cyfyngir yn sylweddol ar weithgareddau sefydliadau sy’n ceisio byw ar danysgrifiadau aelodau’n unig. Heb lefelau gwarantedig o arian byddai’n anodd iddynt gymryd swyddogaeth gydlynol ranbarthol o ran strategaethau twristiaeth rhanbarthol neu farchnata rhanbarthol. Profiad y Biwro Gwyliau Fferm er enghraifft sydd yn hollol ddibynnol ar incwm aelodaeth yw bod eu gweithgareddau

wedi eu cyfyngu, gan eu rhwystro rhag ymgymryd â mentrau newydd gwerth chweil.

4.3.6 Mewn termau gweithredol mae angen archwilio gweithgareddau presennol y CTRh i sicrhau eu bod yn defnyddio adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol a bod dyblygu diangen yn cael ei ddiddymu. Ystyrir y gallai corff sy’n aelod ymgymryd â’r swyddogaethau canlynol yn briodol:-

* marchnata ôl-ofal rhanbarthol – ciplyfr ar ystafelloedd gwely, ymweliadau ymgyfarwyddo’r wasg.

* llyfrynnau marchnata ardal/rhanbarthol

* ymgyrchoedd gwyliau byr ac ymwelwyr dyddiol

* pecynnu’r cynnyrch a datblygu’r cynnyrch yn gyffredinol

* cyngor ac arweiniad i aelodau o ran materion cynllunio, cyfreithiol, marchnata a datblygu busnes

4.3.7 Dylid cydnabod, fodd bynnag, mai cwmnïau annibynnol yw CTRh a byddai’n rhaid iddynt gytuno ar unrhyw newidiadau yn eu gweithgareddau a’u cylch gorchwyl. Byddai’n rhaid iddynt gymryd rhan lawn wrth weithredu unrhyw newidiadau arfaethedig.

**4.4 Awdurdodau Lleol**

4.4.1 Mae gan awdurdodau lleol ran hanfodol i’w chwarae i hybu lles eu hardaloedd trwy amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys cefnogi twristiaeth. Bydd awdurdodau’n paratoi eu ‘cynlluniau cymunedol’ yn fuan fydd yn pennu’r amcanion traws-fwaol ar gyfer yr ardal. Byddant yn cynnwys cyfraniad sefydliadau eraill gan gynnwys Bwrdd Croeso Cymru i gyflawni’r amcanion hynny. Er bod cynnig Cymdeithas Llywodraeth Cymru yn nodi’n briodol bod awdurdodau lleol yn sefydliadau aml-bwrpas sy’n galluogi agweddau integredig, ystyria rhai bod hyn yn rhy aml wedi aros yn ddyhead yn hytrach na realaeth o ran rheoli ymwelwyr. Er y gwnaethpwyd llawer o gynnydd o ran rheoli canol trefi, mae’r strwythurau adrannol â’r orfodaeth i gontractio allan ar gyfer rhai gwasanaethau wedi rhwystro agwedd mwy integredig o ran rheoli ymwelwyr ar adegau. Gobeithir y bydd y dull cabinet newydd o weithredu’n help i gael agwedd mwy integredig.

4.4.2 Mae’n amlwg nad yw’r Cwmnïau Twristiaeth Rhanbarthol wedi cyflawni eu llawn botensial fel cyrff cyswllt rhwng y Bwrdd Croeso, yr ALl a’r diwydiant, yn rhannol oherwydd agweddau amrywiol swyddogion ac aelodau etholedig a’r llif gwybodaeth gwael rhwng rhai o’r rhai hynny sy’n cynrychioli ALl mewn cyfarfodydd CTRh a’r rhai sy’n gwneud y penderfyniadau o fewn yr ALl. Mae natur a difrifoldeb y broblem hon yn amrywio’n fawr rhwng y gwahanol ALl.

4.4.3 Mae’r graddau y mae awdurdodau lleol yn ymwneud â thwristiaeth yn amrywio’n fawr, yn ôl anghenion lleol eu hetholaeth. Mae hyn heb amheuaeth yn cyfrannu tuag at y dryswch presennol o ran pwy sy’n gwneud beth mewn twristiaeth. Rhaid cydnabod fodd bynnag y byddai agwedd gyffredinol gan awdurdodau lleol tuag at dwristiaeth yn anodd i’w chyflawni’n ymarferol, gan fod yr awdurdodau lleol yn gyrff sydd wedi eu hethol yn annibynnol. Yn ogystal ni fyddai’n ymarferol, gan fod rhan twristiaeth yn yr economi leol yn amrywio’n fawr o awdurdod i awdurdod.

4.4.4 Cyrchfannau twristiaeth llwyddiannus yn y dyfodol fydd y rhai hynny sy’n cymryd ymagwedd rheoli ansawdd integredig tuag at bob agwedd ar arhosiad ymwelwyr o’r arwyddbyst a pharcio pan fyddant yn cyrraedd gyntaf, i ansawdd y toiledau cyhoeddus, gwybodaeth, glanweithdra’r traeth a chanol y dref a’r atyniadau y maent yn ymweld â hwy a’r llety yr arhosant ynddo. Mae angen graddau uchel o gydlynu a chydweithio rhwng adrannau amrywiol yr awdurdodau lleol yn ogystal â gweithredwyr y diwydiant i sicrhau cyfleusterau o ansawdd cyson. Bydd angen cyd-drafod effeithiol hefyd rhyngddynt hwy ac eraill sy’n rhan o wasanaethau cymorth twristiaeth, gan gynnwys y Bwrdd Croeso, y Cynghorau Hyfforddiant a Menter a chyrff eraill yn y swyddogaeth hanfodol hon.

4.4.5 Prif ffocws gweithgareddau nifer o awdurdodau yw marchnata’r gyrchfan. Er y dylai agweddau ar ôl-ofal megis mapiau’r dref, llwybrau’r dref, safleoedd gwybodaeth ymwelwyr neu Ganolfannau Croeso a hyd yn oed pan yn addas tywysydd lleol, fod yn brif bryder yr awdurdod lleol, byddai’n well marchnata’r gyrchfan a mynychu ffeiriau masnach ar lefel partneriaeth marchnata a hynny o bosibl gan staff y Cwmnïau Twristiaeth Rhanbarthol neu eu holynwyr. Gallai hyn ryddhau amser swyddogion i ganolbwyntio ar y

dasg allweddol o reoli ansawdd yn integredig yn y cyrchfannau twristiaeth. Mae'r tair strategaeth twristiaeth rhanbarthol sydd wedi eu paratoi hyd yma yn amlygu'r angen i Awdurdodau Lleol ac eraill weithio trwy fframwaith rhanbarthol ar gyfer marchnata i sicrhau defnydd effeithlon o adnoddau. Yr awdurdodau lleol fydd yn pennu eu blaenoriaethau eu hunain ond mae'n bwysig eu bod yn sylweddoli pwysigrwydd eu swyddogaeth o reoli cyrchfannau, a'u bod yn derbyn bod gweithio mewn partneriaeth ar farchnata cyrchfan yn golygu defnydd mwy effeithlon o adnoddau.

4.4.6 Un maes pryder a amlygwyd gan CLLLC ac a nodwyd yn eu papur a gyflwynwyd i'r cyfarfod cyntaf o'r gweithgor, yw rhan y Bwrdd Croeso mewn gweithredu lleol (grantiau bychain a datblygiad trefol). Ymddengys bod hyn yn gysylltiedig â Rhaglenni Datblygu Integredig y Bwrdd Croeso pan fydd y Bwrdd, mewn partneriaeth â noddwyr yr awdurdod lleol, yn neilltuo grant cyfalaf y Bwrdd Croeso i gefnogi gweithredu rhaglenni y cytunwyd arnynt dros gyfnod o 5 mlynedd. Mae gan awdurdodau lleol swyddogaeth arweiniol i sicrhau cydlynu gweithredu'r rhaglenni ond mae'n rhaid i'r Bwrdd Croeso gadw'r cyfrifoldeb o brosesu'r ceisiadau unigol i sicrhau eu bod yn cwrdd â meini prawf ariannol datblygu'r Bwrdd Croeso. O ran grantiau sy'n berthnasol i ffenestr flaen siopau a rhaglenni'r cynllun trefol, maent wedi eu trosglwyddo'n effeithiol i'r awdurdodau lleol trwy roi grant unigol iddynt ar gyfer cynllun ffenestri blaen siopau yn hytrach nag ymdrin ag eiddo unigol. Er mwyn i awdurdodau lleol gyflawni eu swyddogaeth cydlynu a rheoli project, bydd yn rhaid iddynt ryddhau swyddogion sydd â'r gwaith penodol o ymgymryd â'r gwaith hwn ac sydd â'r awdurdod i gydlynu gweithredoedd adrannau eraill o'r awdurdod lleol. Os cyflawnir hyn, efallai y gall awdurdodau lleol chwarae rhan fwy o ran gweithredu'r rhaglenni hyn gyda'r Bwrdd Croeso yn chwarae rhan lai. Bydd yn rhaid i'r Bwrdd Croeso barhau i weithredu'r cynllun grant, yn enwedig o ran projectau'r sector preifat, gan nad yw'n debygol y bydd yr awdurdodau lleol yn meddu ar y gallu technegol arbenigol i werthuso ceisiadau.

4.4.7 Mae cefnogaeth uniongyrchol awdurdodau lleol i dwristiaeth yn deillio o'u pwerau i annog datblygiad yr economi leol ac i ddarparu gwasanaethau hamdden. Mae awdurdodau'n amrywio o ran y blaenoriaethau a roddant i ddatblygu twristiaeth, gan adlewyrchu ei swyddogaeth a'i botensial yn yr ardal a gweledigaeth yr awdurdod ar gyfer y dyfodol. O ganlyniad mae'r adnoddau a ddyrennir i dwristiaeth yn amrywio. Mae prinder arian yn ystod y blynyddoedd diweddar wedi golygu bod pob awdurdod wedi wynebu penderfyniadau anodd yngl_n â gwasanaethau, gyda nifer o weithgareddau gan gynnwys twristiaeth yn cael eu cwtogi. Os yw awdurdodau lleol i chwarae rhan amlwg yn natblygiad twristiaeth, mae'n hanfodol bod y diwydiant yn cael blaenoriaeth a bod adnoddau'n cael eu dyrannu ar gyfer ei ddatblygu.

### 4.5 Cyrff Twristiaeth Eraill

#### 4.5.1 Cymdeithasau Twristiaeth

Lluniwyd Cymdeithasau Twristiaeth ar sail ad hoc, caiff rhai eu rheoli gan ddau neu dri unigolyn ac mae gan eraill aelodaeth fwy cynrychioliadol. Nid oes cyfansoddiad safonol ar eu cyfer na strwythur cenedlaethol neu ranbarthol i ddod â hwy at ei gilydd, er bod y CTRh yn darparu strwythur o gefnogaeth anffurfiol. Gallant, fodd bynnag, greu cyswllt allweddol rhwng y gweithredwyr sylfaenol â'r cyrff rhanbarthol a chenedlaethol sy'n gysylltiedig â thwristiaeth. Gallant hefyd hwyluso datblygu consortia prynu a marchnata a phacio'r cynnyrch ar lefel leol. Gallant hefyd ddarparu fforwm i awdurdodau lleol a'r fasnach leol i gwrdd a cheisio datblygu gwell cydlyniaeth.

I gynyddu eu heffeithiolrwydd ac i ddarparu sianel gyfathrebu, awgrymir y dylid annog cymdeithasau twristiaeth ar lefel y gyrchfan gyda chyfansoddiad safonol. Gallai hyn fod ar lefel sirol lle nad oes cyrchfannau arwyddocaol yn y sir. Gallant hyd yn oed ddatblygu fel canghennau lleol o'r corff aelodaeth rhanbarthol sef y CTRh. Byddai'r rhain yn gysylltiedig â'r Cwmnïau Twristiaeth Rhanbarthol neu eu holynwyr.

#### 4.5.2 Grwpiau LEADER II

Mae'n annhebygol y bydd Grwpiau LEADER, gan eu bod yn sefydliadau o'r gwaelod i fyny sydd yn gofalu am fentrau dyfeisgar mewn datblygiad gwledig, yn cymryd eu lle yn daclus o fewn unrhyw strwythur sefydliadol presennol neu arfaethedig ar gyfer twristiaeth. Mae'r grwpiau unigol yn gweithio mewn ffyrdd tra gwahanol, rhai'n ymwneud â thwristiaeth yn fwy nag eraill. Gall y diffyg cysondeb o ran ymagwedd arwain at ddryswch. Gallant fodd bynnag chwarae rhan werthfawr mewn datblygu syniadau gwreiddiol ym maes pecynnu cynnyrch a gallant gyda chymorth awdurdodau lleol helpu i reoli ansawdd yn integredig mewn ardaloedd gwledig. Dylent, fodd bynnag, weithio o fewn y strategaethau twristiaeth a fabwysiadwyd ar gyfer eu hardaloedd a chyd-drafod â'r prif gorff twristiaeth ar gyfer unrhyw agwedd ar dwristiaeth y maent yn dymuno bod yn rhan ohono i osgoi'r perygl o ddyblygu ac o ganlyniad ddefnydd aneffeithlon o adnoddau.

#### 4.5.3 Cyrff Masnach

Mae gan gyrff masnach sy'n seiliedig ar grwpiau sectoraidd gylch gorchwyl a swyddogaeth glir ar hyn o bryd. Un maes lle y gellir datblygu ymhellach fyddai gwella a ffurfioli eu cysylltiadau gyda'r Cwmnïau Twristiaeth Rhanbarthol neu eu holynwyr a'u cysylltiadau gyda Chynghrair Twristiaeth Cymru yn genedlaethol. Dylai'r cyrff masnach hefyd ddarparu swyddogaeth ymgynghorol werthfawr i'r Bwrdd Croeso, a ragwelwyd yn wreiddiol pan sefydlwyd y rhai diweddaraf.

**4.5.4 Cynghrair Twristiaeth Cymru**

Mae gan Gynghrair Twristiaeth Cymru swyddogaeth hanfodol i ddod â gwahanol sectorau o'r diwydiant at ei gilydd i lefaru â llais unedig ar ran y diwydiant. Ar hyn o bryd mae adnoddau'r corff hwn yn hynod gyfyngedig i ymgymryd â'r swyddogaeth hon a bydd yn cael trafferth i godi arian i gyflogi swyddog llawn amser neu ran-amser. I fod yn effeithiol bydd angen cefnogaeth ymchwil/polisi arno.

Un opsiwn fyddai i'r tri Chwmni Twristiaeth Rhanbarthol ymuno yn gorff gydag aelodaeth genedlaethol a changhennau rhanbarthol i siarad ar ran y diwydiant. Mae Cyngor Twristiaeth Awstralia yn gorff aelodaeth effeithiol o'r fasnach gyda swyddfeydd taleithiol a rhanbarthol, sydd wedi cael llwyddiant mawr wrth gynrychioli'r diwydiant ar lefel ranbarthol, taleithiol a ffederal, a allai hyn fod yn fodel ar gyfer Cymru?

4.5.5 **Awdurdod Datblygu Cymru**

Gallai Awdurdod Datblygu Cymru fod yn ffynhonnell ariannu bwysig ar gyfer gwelliannau amgylcheddol o fewn cyrchfannau twristiaeth, gallant hefyd weithio gyda'r Bwrdd Croeso i gefnogi busnesau twristiaeth. Mae cyfle yma fodd bynnag i'r Awdurdod a'r Bwrdd. Croeso gydlynu eu gwaith yn well, fel y cyflawnwyd yn rhai o feysydd rhaglenni datblygu integredig y Bwrdd Croeso.

5.0 **TUAG AT STRWYTHUR TWRISTIAETH NEWYDD I GYMRU**

**5.1 Cyflwyniad**

Trafododd a gwerthusodd y Gweithgor chwe opsiwn ar gyfer strwythur twristiaeth newydd i Gymru gan gytuno ar opsiwn o'u dewis i'w archwilio ymhellach. Disgrifir y broses a ddefnyddiwyd i gyrraedd yr opsiwn o'u dewis yn Atodiad III.

Ceisiodd yr opsiwn o'u dewis gyflawni'r egwyddorion canlynol:-

* Y Bwrdd Croeso i fabwysiadu swyddogaeth fwy strategol.

* Awdurdodau lleol i ganolbwyntio ar reoli cyrchfannau ac ôl-ofal i ymwelwyr.

* Yr angen am lais cryf yn y diwydiant gydag un corff aelodaeth cenedlaethol - Twristiaeth Cymru.

* Yr angen i annog ymgorffori Cymdeithasau Twristiaeth fel canghennau lleol y corff aelodaeth cenedlaethol, a hefyd i gael un tâl aelodaeth i'r grwpiau sectoraidd.

Mae'r bennod hon yn archwilio'r strwythur arfaethedig hon yn fanylach gyda'r bwriad o ffurfio argymhellion i'r gweinidog.

**5.2 Swyddogaethau a Chyfrifoldebau Newydd**

**5.2.1 Bwrdd Croeso Cymru**

Roedd barn gytûn o fewn y Gweithgor bod angen corff strategol cenedlaethol gyda gallu arbenigol i arwain datblygiad y Diwydiant Twristiaeth yng Nghymru yn y dyfodol. Ystyriodd y Gweithgor fod Bwrdd Croeso Cymru'n cyflawni'r swyddogaeth hon, gan ei fod yn weithgar yn y farchnad ac felly'n deall anghenion y farchnad. Golyga hyn y gall sicrhau ei fod yn ymwybodol o anghenion ymwelwyr presennol ac ymwelwyr y dyfodol yn ei swyddogaeth ddatblygiadol. Ystyrir fodd bynnag bod angen i'r Bwrdd Croeso gryfhau ac ehangu ei bolisi craidd a'i swyddogaethau strategol i gwrdd ag anghenion Cymru wedi dyfodiad y Cynulliad.

O fewn y cyd-destun hwn nodir y cyfrifoldebau craidd a awgrymir ar gyfer y dyfodol isod:-

Darparu fframwaith strategol ar gyfer datblygu'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru mewn ffyrdd fydd yn rhoi'r budd economaidd a chymdeithasol gorau i bobl Cymru a sicrhau cynaladwyedd y diwydiant.

Darparu cyngor polisi a gwybodaeth i'r Cynulliad a'i aelodau ar berfformiad y diwydiant twristiaeth ac ar faterion twristiaeth sy'n effeithio ar Gymru a gweithredu polisi'r Cynulliad o ran twristiaeth.

Paratoi fframwaith strategol ar gyfer marchnata Cymru fel cyrchfan i dwristiaid yn y Deyrnas Gyfunol yn ogystal â thramor.

Datblygu a hybu brand Cymru i ddarparu delwedd neilltuol ac atyniadol o Gymru fel cyrchfan i ymwelwyr mewn marchnadoedd targed allweddol.

Cynllunio a chytuno ar ymagwedd gydlynol o farchnata Cymru ym marchnadoedd y DU a thramor mewn partneriaeth â'r Awdurdod Twristiaeth Prydeinig, Twristiaeth Cymru, awdurdodau lleol a'r sector preifat gan gynnwys dosbarthu, ôl-ofal a chydlynu rhwydwaith y Canolfannau Croeso.

Gwneud gwaith ymchwil i werthuso perfformiad, monitro tueddiadau'r farchnad a sicrhau bod gwybodaeth allweddol yngl_n â'r farchnad yn cael ei dosbarthu i'r diwydiant ac i awdurdodau lleol.

Gosod safonau ansawdd ar gyfer y diwydiant twristiaeth yng Nghymru i wella safonau cystadleuol a chynorthwyo dewis y defnyddiwr.

Gwella ansawdd cynnyrch twristiaeth, y caledwedd a'r meddalwedd trwy gymorth ariannol (gan gynnwys grantiau cyfalaf) yn unol â blaenoriaethau strategol.

Darparu cyngor polisi twristiaeth i'r pedwar Fforwm Economaidd Rhanbarthol, yr awdurdodau lleol a'r Cyrff Cyhoeddus Anadrannol perthnasol a'r diwydiant.

Hybu'r arfer a'r mentrau gorau.

Ac eithrio cynllun grant cyfalaf y Bwrdd Croeso lle mae cyd-destun cenedlaethol yn ogystal â gallu arbenigol yn hanfodol, gallai rhaglenni gweithredol eraill gael eu datganoli i gyrff eraill, petai gwneud hynny yn cynnig gwerth gwell am arian.

I sicrhau cyd-gysylltu effeithiol o ran polisi rhwng y pedwar Fforwm Economaidd Rhanbarthol, yr awdurdodau lleol, swyddfeydd rhanbarthol Twristiaeth Cymru a Chyrff Cyhoeddus Anadrannol, bydd angen i'r Bwrdd Croeso wella ei bresenoldeb yn y rhanbarthau.

Dylid ystyried a ddylai Bwrdd y Bwrdd Croeso gynnwys cynrychiolydd o Twristiaeth Cymru a'r awdurdodau lleol yn y dyfodol.

**5.2.2 Twristiaeth Cymru**

Mae cysyniad Twristiaeth Cymru yn seiliedig ar gysyniad Cyngor Twristiaeth Awstralia, sef y corff diwydiant twristiaeth cenedlaethol pennaf sy'n cynrychioli diddordebau 30,000 o aelodau a mentrau twristiaeth a theithio cysylltiedig. Mae'n gr_p lobïo cryf iawn ar gyfer y diwydiant twristiaeth a chanddo fynediad uniongyrchol i Weinidogion Twristiaeth ar lefel ffederal yn ogystal â lefel daleithiol. Mae ganddo swyddfeydd a rheolwr ymhob talaith ac aelodaeth amrywiol o westeiwyr i gwmnïau llogi ceir.

Gallai Twristiaeth Cymru ddarparu un llais cryf o fewn Cymru i roi mwy o gydnabyddiaeth gan wleidyddion a'r cyhoedd fel ei gilydd o'r cyfraniad hanfodol y mae twristiaeth yn ei wneud i economi Cymru. Mae'n cynnig y cyfle i greu corff gydag un tâl aelodaeth sy'n cynnig hierarchaeth strwythurol o ganghennau lleol, cynghorau rhanbarthol a chyngor cenedlaethol sy'n gallu cynrychioli'r diwydiant yn briodol. Gallai Twristiaeth Cymru weithredu pwyllgorau sector ar lefel ranbarthol a chenedlaethol i sicrhau bod diddordebau ac anghenion arbennig sectorau penodol yn cael eu hystyried ac felly'n cynnwys y cyrff masnach unigol yn y strwythur newydd. Byddai'r Cynghorau Rhanbarthol yn cyfateb â phedwar Rhanbarth Economaidd Cymru. Gallai Awdurdodau Lleol fod yn aelodau o Twristiaeth Cymru yn eu swyddogaeth fel darparwyr cyfleusterau i ymwelwyr a phetai'r awdurdodau lleol a Twristiaeth Cymru'n cytuno, gallent gael eu pwyllgor sector eu hunain.

Gallai Twristiaeth Cymru gael y swyddogaethau craidd o hybu a chynrychioli buddiannau'r diwydiant twristiaeth i'r Cynulliad, a chynnig gwasanaethau aelodaeth. Gallai hefyd ymgymryd â gweithgareddau di-graidd penodol y Bwrdd Croeso ac awdurdodau lleol

pan fyddant yn gyson â'i swyddogaeth fel corff aelodaeth. Byddai'r rhain ar sail cytundebau lefel o wasanaeth gyda thargedau perfformiad clir.

Ar hyn o bryd mae aelodaeth y Cwmnïau Twristiaeth Rhanbarthol wedi ei chyfyngu i aelodau sydd wedi eu hachredu gan y Bwrdd Croeso pan fo hynny'n berthnasol. Petai system o gofrestru darparwyr llety'n statudol yn cael ei chyflwyno a'i mabwysiadu fel yr isafswm gofyniad ar gyfer aelodaeth, byddai sail arfaethedig aelodaeth Twristiaeth Cymru yn llawer uwch nag un y CTRh ar hyn o bryd.

Gallai'r corff newydd gael ei greu fel un endid trwy i'r CTRh uno neu trwy greu strwythur ffederal gyda'r CTRh yn parhau fel cyrff rhanbarthol annibynnol. Dylid cael gwerthusiad annibynnol o pa ddull sy'n cynnig y gwerth gorau am arian a'r strwythur mwyaf effeithiol o ran y peirianwaith gorau ar gyfer creu'r strwythur newydd hwn.

**5.2.3 Awdurdodau Lleol**
Cydnabyddir bod yr awdurdodau lleol yn gwneud cyfraniad mawr i ariannu twristiaeth o ran marchnata yn ogystal â darparu amwynderau i dwristiaid. Cred mwyafrif y gweithgor fodd bynnag y dylai awdurdodau lleol ystyried canolbwyntio eu gweithgareddau ar gefnogi twristiaeth trwy gynnig gwasanaeth rheoli cyrchfannau integredig o safon gan gynnwys rheoli ymwelwyr, ôl-ofal a gwybodaeth a sicrhau bod y seilwaith a'r cyfleusterau sylfaenol yn bodoli i gwrdd ag anghenion ymwelwyr. Rhaid i awdurdodau benderfynu ar y ffordd orau i hybu twristiaeth yn eu hardal, ond rydym yn argymell bod y canlynol yn cynnwys y gwasanaethau craidd sydd angen eu hintegreiddio.

Datblygu a gweithredu Cynlluniau Gweithredu Twristiaeth ar gyfer eu hardaloedd sy'n ategu'r strategaethau twristiaeth rhanbarthol a chenedlaethol.

Ymchwil leol ar faint a gwerth twristiaeth i ardal a phroffil ymwelwyr ac arolygon boddhad i alluogi targedu gweithgareddau hyrwyddo a datblygu'r cynnyrch twristiaeth cyffredinol yn well i gwrdd ag anghenion ymwelwyr, cyfathrebu'r gwaith ymchwil i fusnesau lleol, preswylwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb.

Rheoli ymwelwyr ac ôl-ofal, gan gynnwys cyflwyno ymagwedd integredig tuag at reoli ansawdd i bob agwedd ar brofiad ymwelwyr.

i Datblygu a chynnal y seilwaith leol ar gyfer twristiaeth.

Darperir gwasanaethau cymorth pwysig hefyd gan awdurdodau lleol sy'n gwneud cyfraniad pwysig i dwristiaeth:

Materion cynllunio gan gynnwys gwella'r amgylchedd adeiledig, mynediad i a rheoli cefn gwlad.

Materion trafnidiaeth gan gynnwys rheoli traffig, cyfnewidfeydd trafnidiaeth, hygyrchedd ac arwyddbyst.

Mentrau cymorth busnes i gwrdd ag anghenion busnesau lleol fel rhan o'r rhwydwaith Cyswllt Busnes cyffredinol.

Cymorth i fentrau diwylliannol lleol.

Ystyrir y dylid annog awdurdodau lleol i weithio trwy Bartneriaethau Marchnata Rhanbarthol gyda'r Bwrdd Croeso a swyddfa ranbarthol Twristiaeth Cymru yn y dyfodol ar ymgyrchoedd hyrwyddo ar lefel ranbarthol i hyrwyddo eu cyrchfannau.

Er mwyn gwella gweithgareddau twristiaeth yr awdurdodau lleol dylent dderbyn mwy o gyllid i ariannu eu swyddogaeth rheoli cyrchfannau.

**5.2.4 Fforwm Twristiaeth Cenedlaethol**
Gallai aelod o Bwyllgor Gwaith y Cynulliad gyda chyfrifoldeb dros Dwristiaeth gadeirio hwn i ddod â'r holl bartïon allweddol ynghyd i wella cydlyniaeth rhwng cyrff. Deallir bod y Gweinidog wedi nodi ei fwriad i sefydlu Fforwm o'r fath yn ddiweddarach eleni. Gallai aelodaeth gynnwys y Bwrdd Croeso, CLLLC, Twristiaeth Cymru gyda chynrychiolaeth yn cynnwys pob un o'r prif sectorau masnach, Cadw, Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, y Cyngor Chwaraeon, Cyngor y Celfyddydau,

Cyngor TECs Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru, Awdurdod Twristiaeth Prydeinig (BTA), y Parciau Cenedlaethol, a chynrychiolydd o'r Sector Addysg Uwch.

Gallai'r Fforwm gyfarfod unwaith neu ddwywaith y flwyddyn a chyflawni'r swyddogaethau canlynol:-

cymryd perchenogaeth o'r Strategaeth Twristiaeth Genedlaethol a monitro cynnydd a bwydo i Uwchgynhadledd Twristiaeth y DU.

gwella cydlyniaeth a chyfathrebu rhwng y cyrff hynny sydd â'u gweithgareddau'n effeithio ar dwristiaeth.

nodi ac archwilio materion o bwys sy'n effeithio ar ddyfodol twristiaeth yng Nghymru a gwneud argymhellion i'r Cynulliad.

sicrhau y cymerir mantais lawn o'r cyfleoedd am arian gan Undeb Ewropeaidd.

awgrymu mentrau newydd i hybu datblygiad twristiaeth.

Mae'r Fforwm Twristiaeth yn Lloegr yn cynnig enghraifft ddefnyddiol. Trwy ei Weithgorau mae wedi archwilio adnoddau dynol, strategaeth gyfathrebu i'r diwydiant, twristiaeth busnes, atyniadau i ymwelwyr ac yn y blaen.

Gallai Fforwm Cenedlaethol Cymru gymryd swyddogaeth debyg o bosibl.

Byddai'r Fforwm yn cael ei wasanaethu gan y Bwrdd Croeso a fyddai'n darparu'r Ysgrifenyddiaeth.

5.3 **Casgliadau**

Mae'r strwythur arfaethedig ar gyfer twristiaeth yn cynnig manteision sylweddol o'i chymharu â'r system bresennol, yn enwedig:-

* gwell cyfathrebu

* gwell eglurder

* gwell gwerth am arian

* llais cryf ar gyfer y diwydiant

* un tâl aelodaeth i'r fasnach

Er bod trafferthion amlwg wrth weithredu strwythur newydd, ni ddylid eu defnyddio fel esgusodion i gynnal y statws quo. Yn hytrach dylem godi i'r sialens o greu a chael ymrwymiad i strwythur twristiaeth sy'n addas ar gyfer y Mileniwm newydd.

Cyn y gwneir unrhyw benderfyniad terfynol i greu strwythur newydd ar gyfer y diwydiant bydd yn hanfodol ymgymryd â gwerthusiad manwl o ymarferoldeb creu a chael ymrwymiad i Dwristiaeth Cymru newydd a fyddai'n archwilio'r goblygiadau ariannol, staff, aelodaeth a chyfreithiol gan gynghori ar yr amserlen weithredu. Mae'r gwerthusiad manwl hwn, fodd bynnag, y tu hwnt i gylch gorchwyl y gweithgor hwn a dylid ei wneud gan ymgynghorwyr annibynnol fel ymarfer ar wahân.

**6.0 GYMHELLION Y GWEITHGOR I'R GWEINIDOG**

6.1 Mae'r Gweithgor yn gwneud yr argymhellion canlynol i wella strwythur presennol twristiaeth, i'r Gweinidog eu hystyried.

Bod y Bwrdd Croeso yn parhau i fod yn brif gorff strategol ar gyfer twristiaeth, a'i fod yn cadw ac yn ehangu ei bolisi craidd a'i swyddogaeth strategol. I'w alluogi i gyflawni'r swyddogaeth hon, dylai ei bresenoldeb yn y rhanbarthau fod ychydig yn fwy amlwg.

Bod corff aelodaeth cenedlaethol newydd Twristiaeth Cymru yn cael ei greu i gynrychioli'r diwydiant Twristiaeth ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol, lleol a sectoraidd. Bydd gan hyn oblygiadau i'r fasnach, y cwsmer ac i'r defnydd o adnoddau ac felly fe

argymhellir bod astudiaeth werthuso fanwl annibynnol yn cael ei chomisiynu i archwilio'r argymhellion. Dylai'r astudiaeth asesu'r dull gorau o greu corff newydd o ran gwerth am arian ac effeithiolrwydd ac ystyried y goblygiadau hir dymor i'r diwydiant, gan gynnwys sicrhau perchenogaeth gan y diwydiant.

Bod awdurdodau lleol yn cael eu hannog i ystyried canolbwyntio eu gweithgareddau i gefnogi twristiaeth a chynnig gwasanaeth rheoli cyrchfannau integredig o safon gan gynnwys rheoli ymwelwyr, ôl-ofal a gwybodaeth a sicrhau bod y seilwaith a'r cyfleusterau sylfaenol yn bodoli i gwrdd ag anghenion ymwelwyr. Dylent hefyd gael eu hannog i barhau i ddatblygu ymhellach y dull Partneriaeth Marchnata Rhanbarthol/Ardal o weithio gyda'r Bwrdd Croeso a'r corff newydd, Twristiaeth Cymru.

Bod digon o adnoddau yn cael eu neilltuo i awdurdodau lleol i'w galluogi i ymgymryd â chynnig gwasanaeth rheoli cyrchfannau integredig o safon.

Bod bwriad datganedig y Gweinidog o sefydlu Fforwm Twristiaeth Cenedlaethol i Gymru'n cael ei groesawu fel ffordd o wella cydlynu a chyfathrebu rhwng y chwaraewyr allweddol.

**YMGYNGHORI**

Yn dilyn trafodaeth o'r adroddiad yn ystod cyfarfod cyntaf y Fforwm Twristiaeth ar 8 Gorffennaf, gwahoddwyd sefydliadau sydd â diddordeb mewn twristiaeth i roi eu sylwadau ar yr adroddiad. Derbyniwyd 16 o ymatebion, hanner ohonynt gan awdurdodau lleol. Roedd yr ymatebion yn dangos na fyddai'r awdurdodau lleol yn cefnogi'r sefyllfa fel ag y mae nac unrhyw newid ohoni. Er mwyn i unrhyw drefniadaeth cyfundrefnol lwyddo mae'n amlwg bod yn rhaid iddo gael cefnogaeth y 3 phartner allweddol, llywodraeth leol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r diwydiant. Ystyrir felly nad oes unrhyw agwedd o'r sylwadau a dderbyniwyd sy'n cyfiawnhau newidiadau i'r argymhellion a roed gan y gweithgor arwahan i ail-bwysleisio'r angen am asesiad annibynnol o ymarferoldeb sefydlu corff newydd ar gyfer y diwydiant. Wrth gyflawni'r asesiad rhaid ystyried p'un ai y gellir datblygu Cynghrair Twristiaeth Cymru sy'n bodoli eisoes i ffurfio'r corff newydd yma ar gyfer y diwydiant.

ATODIAD 1

**AELODAU'R GWEITHGOR SWYDDOGAETHAU A CHYFRIFOLDEBAU MEWN TWRISTIAETH**

| | |
|---|---|
| Ian Rutherford (Cadeirydd) | Bwrdd Croeso Cymru - Aelod o'r Bwrdd |
| Philip Evans | Bwrdd Croeso Cymru – Aelod o'r Bwrdd |
| Jonathan Jones | Bwrdd Croeso Cymru |
| Nigel Adams | Bwrdd Croeso Cymru |
| David Powell (Gwyliwr) | Y Swyddfa Gymreig |

| | |
|---|---|
| Peter Heard | Twristiaeth De a Gorllewin Cymru |
| Peter Cole | Twristiaeth De a Gorllewin Cymru |
| David Peate | Twristiaeth Canolbarth Cymru |
| Dewi Davies | Twristiaeth Gogledd Cymru |

| | |
|---|---|
| Chris Jackson | Cymdeithas Atyniadau Ymwelwyr yng Nghymru |

| | |
|---|---|
| Tim Arthur | Cymdeithas Atyniadau Ymwelwyr yng Nghymru |
| Syr Brooke Boothby | Fforwm Carafanio a Gwersylla Cymru |
| Brian Davies | Antur Cymru |
| Janet Pogson | Biwro Gwyliau Fferm Cymru |
| Martin Cardale | British Hospitality Association |
| Graham Houghton | Cymdeithas Gwyliau Prydeinig a Pharciau Cartref |
| | |
| Ian Bell | British Hospitality Association |
| | |
| Tim Manson | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Cymorth Swyddogion |
| Cyng. Bob Parry | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - Conwy |
| Cyng. John Smith | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Caerdydd |
| Cyng. Hywel Evans | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Ceredigion |
| Cyng. Elwyn Jones | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Castell Nedd/ Port Talbot |

**ATODIAD III**

**OPSIYNAU AR GYFER NEWID**

**Cyflwyniad**
Cyflwynwyd chwe opsiwn ar gyfer y gweithgor i'w trafod a'u gwerthuso. Roedd pob un o'r chwe opsiwn yn tybio y byddai arweiniad strategol a swyddogaeth polisi'r Bwrdd Croeso yn parhau ac y byddai awdurdodau lleol yn parhau i fod yn gyfrifol am seilwaith, gwasanaethau a rheoli ymwelwyr yn lleol. Mae pob opsiwn hefyd yn cynnwys sefydlu Fforwm Twristiaeth Genedlaethol sy'n cynnwys y Bwrdd Croeso, cyrff masnach cenedlaethol sy'n aelodau, CLLLC a Chyrff Cyhoeddus Anadrannol i wella cydlyniaeth polisi.

**Disgrifiad o'r Opsiynau**

***Opsiwn 1***
Ymgorffori'r CTRh yn ôl i'r Bwrdd Croeso i gryfhau swyddogaeth y Bwrdd Croeso yn y rhanbarthau. Ffurfio cyrff aelodaeth rhanbarthol i hyrwyddo buddiannau eu haelodau a darparu llais masnach rhanbarthol. Sefydlu canghennau lleol o'r corff aelodaeth rhanbarthol er mwyn gwella'r cyswllt gyda gweithredwyr ar y lefel sylfaenol. Cyrff aelodaeth rhanbarthol a chyrff masnach y sector cenedlaethol yn dod at ei gilydd i ddarparu llais cenedlaethol ar gyfer y diwydiant drwy Gynghrair Twristiaeth Cymru. Swyddogaeth yr awdurdodau lleol yn parhau'n ddigyfnewid.

***Opsiwn 2***
Y Bwrdd Croeso yn cryfhau ei bresenoldeb rhanbarthol. CTRh yn rhoi'r gorau i weithredu fel cynrychiolwyr rhanbarthol y Bwrdd

Croeso ac yn canolbwyntio ar fod yn gyrff aelodaeth. CTRh yn ymgymryd â gwaith gweithredol ar ran y Bwrdd Croeso ac ALl ar sail contractau masnachol. CTRh yn cymryd rhan yng nghynghrair Twristiaeth Cymru gyda chyrff masnachol i ddarparu llais cenedlaethol ar gyfer y diwydiant. Rhesymoli gweithgareddau marchnata rhanbarthol a lleol drwy gael ALl i farchnata eu hardaloedd drwy CTRh.

***Opsiwn 3***
Y Bwrdd Croeso yn datganoli ei swyddogaethau gweithredol i'r CTRh ac yn canolbwyntio ar swyddogaethau polisi strategol.

Trosglwyddo staff ac adnoddau o'r Bwrdd Croeso i'r CTRh.

CTRh i ymgymryd â swyddogaethau cynrychioliadol y Bwrdd Croeso yn y rhanbarthau.

CTRh ffurfio canghennau lleol i wella cyd-drafod ar y lefel sylfaenol.

CTRh gyda Chyrff Masnach i gyfranogi yng Nghynghrair Twristiaeth Cymru.

***Opsiwn 4***
Ffurfio corff aelodaeth cenedlaethol, Twristiaeth Cymru, drwy gyfuno'r tri CTRh ac o bosibl y cyrff masnach. Darparu llais cenedlaethol ar gyfer y diwydiant.

Cadw swyddfeydd CTRh fel swyddfeydd rhanbarthol Twristiaeth Cymru.

Gallai cyrff masnach ddod yn bwyllgorau sector Twristiaeth Cymru, gan arwain at un ffi aelodaeth.

Gallai Twristiaeth Cymru gymryd y cyfrifoldeb dros sicrwydd ansawdd er y bydd angen am gorff cwynion annibynnol.

Byddai Twristiaeth Cymru yn annog ffurfio canghennau ar y lefel leol er mwyn gwella cyd-drafod ar lefel sylfaenol.

Gallai Twristiaeth Cymru ymgymryd â gwaith gweithredol sy'n gydnaws â bod yn gorff aelodaeth llawn ar ran y Bwrdd Croeso ac ALl ar sail contract wrth gontract.

Gallai awdurdodau lleol farchnata eu hardaloedd drwy bartneriaethau rhanbarthol rhwng yr ALl, y Bwrdd Croeso a swyddfeydd rhanbarthol Twristiaeth Cymru.

Awdurdodau Lleol i weithio gyda grwpiau cymunedol a lleol sydd â diddordeb i reoli cyrchfannau yn safonol ac yn integredig a datblygu cynnyrch.

Byddai gan y Bwrdd Croeso bresenoldeb rhanbarthol wedi'i ehangu'n gymedrol yn canolbwyntio ar bolisi a chyswllt strategol.

***Opsiwn 5***
Creu rhanbarthau marchnata newydd sydd â sail cynnyrch twristiaeth ymarferol a'r potensial i ddatblygu cydnabyddiaeth a hunaniaeth o fewn y farchnad.

Byddai rhanbarthau marchnata newydd yn bartneriaeth gyda'r sector preifat, gan ddisodli ardaloedd marchnata'r DU, grwpiau marchnata tramor a'r CTRh.

Byddai gan bob un weithgor bach a Bwrdd wedi'i lunio o ALl a chynrychiolwyr y sector preifat i weinyddu a goruchwylio'r gwaith.

Byddai rhanbarthau marchnata yn atebol i'r fasnach yn eu rhanbarth drwy gynrychiolwyr yn y mecanwaith ymgynghorol.

Cyfrifoldeb dros weithgaredd marchnata'r DU a thramor o fewn fframwaith a gydlynir gan y Bwrdd Croeso.

Cymdeithasau twristiaid lleol wedi'u seilio ar Ganolfannau Croeso efallai yn ymdrin â materion lleol a chyflwyno adroddiad mewn ffederasiwn rhanbarthol fyddai'n chwarae rhan bwysig ar Fyrddau'r rhanbarthau marchnata newydd.

Cynghrair Twristiaeth Cymru wedi ei llunio o gyrff masnach a fyddai'n darparu llais cenedlaethol ar gyfer y diwydiant.

Fforwm Twristiaeth Genedlaethol fel gyda'r opsiynau blaenorol.

***Opsiwn 6***
Creu 4 Bwrdd Croeso Rhanbarthol.

Creu corff aelodaeth masnach cenedlaethol 'Twristiaeth Cymru' i gynnwys cynrychiolaeth ar/mewn Cymdeithasau Twristiaeth lleol, cysylltiedig, ar lefel ranbarthol, sectoraidd a chenedlaethol gyda buddiannau aelodaeth holl-gynhwysol. Rhoi cymhellion i gymdeithasau masnach a CTRh i gael yr aelodaeth fwyaf posibl.

Y Bwrdd Croeso i gynnwys cynrychiolwyr o Twristiaeth Cymru, CTRh a CLLLC yn ogystal â swyddogion a benodir gan y Cynulliad.

CTRh i ddarparu cymorth gweinyddol ac ysgrifenyddol i Twristiaeth Cymru a fforymau ymgynghorol.

CTRh i gyflwyno strategaethau twristiaeth rhanbarthol ac agweddau rhanbarthol ar strategaeth genedlaethol. CTRh i gydlynu gweithgareddau'r siroedd yn unol â strategaethau rhanbarthol.

Byrddau y CTRh i gynnwys y Bwrdd Croeso, Twristiaeth Cymru ac Awdurdodau Lleol.

Datganoli cyllidebau i CTRh ar gyfer marchnata ar y cyd, grantiau bach ac ati.

**Gwerthuso'r Opsiynau**
O ran pob opsiwn, nodir y dadleuon o'u plaid ac yn eu herbyn isod. Daeth rhai o'r rhain i'r amlwg wrth drafod yr opsiynau mewn gweithgorau, a nodwyd eraill cyn y cyfarfod yn y papur trafod.

**OPSIWN 1**
**O blaid**
Gwella cyfathrebu gyda'r fasnach.

Ar lefel sylfaenol bydd presenoldeb y Bwrdd Croeso yn sicrhau y bydd y Bwrdd yn fwy sensitif i'r fasnach, materion rhanbarthol a lleol.

Gwell eglurder o ran swyddogaethau.

**Yn erbyn**
Opsiwn drud sy'n annhebygol o roi gwerth am arian.

Colli gallu'r CTRh i gael arian o'r sector preifat ar gyfer marchnata.

Dargyfeirio'r Bwrdd Croeso oddi wrth ei brif swyddogaeth polisi/strategaeth.

**OPSIWN 2**
**O blaid**
Bydd gwell eglurder o ran swyddogaethau yn arwain at well ffocws.

Gwell cynrychiolaeth ranbarthol i'r Bwrdd Croeso ar gost resymol.

Gostwng dyblygu o ran marchnata a gwell defnydd o adnoddau.

Gwell cyfathrebu.

Gall ALl ganolbwyntio amser swyddogion ar y swyddogaeth allweddol o reoli ymwelwyr.

**Yn erbyn**
Goblygiad y gallai arian y Bwrdd Croeso i'r CTRh ar sail contract ar gyfer gwasanaethau penodol leihau diogelwch ariannol CTRh.

Costau staff a chostau gweithredol i'r Bwrdd Croeso, er y gallai arbedion mewn arian craidd y Bwrdd Croeso i CTRh wrthweithio hyn.

**OPSIWN 3**
**O blaid**
CTRh cryfach ac mwy cadarn.

Bydd y Bwrdd Croeso yn canolbwyntio ar bolisi strategol.

Rhywfaint o eglurder gwell o ran pwy sy'n gwneud beth.

**Yn erbyn**
Gwrthdaro anochel o ran diddordebau ar gyfer CTRh fel corff aelodaeth yn ogystal â chynrychioli Corff Cyhoeddus Anadrannol.

Dau feistr, yr aelodau a'r Bwrdd Croeso, sy'n debygol o achosi i'r CTRh golli ffocws.

Gwrthdaro o ran diddordebau oherwydd bod y CTRh yn cynrychioli aelodau masnach, y fasnach a'r ALl h.y. yn cynrychioli aelodau masnach mewn anghydfodau cynllunio.

**OPSIWN 4**
**O blaid**
Corff masnach pwerus i lobïo ar gyfer y diwydiant.

Diffiniad clir o swyddogaethau a chyfrifoldebau.

Gwell gwasanaethau ar gyfer aelodau masnach.

Gwell cyfathrebu.

Un ffi aelodaeth ar gyfer y fasnach.

**Yn erbyn**
Cynnydd cymedrol yng nghostau gweithredu'r Bwrdd Croeso i ddechrau, ond arbedion yn yr hir dymor.

CTRh a chyrff masnach yn colli eu hannibyniaeth.

Cymryd amser i'w weithredu.

Angen am arian craidd cychwynnol gan y Bwrdd Croeso.

***OPSIWN 5***
**O blaid**
Cysoni strwythurau gyda rhanbarthau ymarferol sydd â'r potensial i ddatblygu cydnabyddiaeth yn y farchnad.

Lleihau dyblygu ac felly defnyddio adnoddau’n fwy effeithiol.

Atebolrwydd cynyddol i’r fasnach.

**Yn erbyn**
Bydd ailstrwythuro sylfaenol yn achosi cryn dipyn o amharu yn y byr dymor.

Byddai angen i awdurdodau lleol ildio adnoddau a staff i gefnogi’r ardaloedd marchnata newydd.

Efallai y bydd hyn yn gofyn am ddeddfwriaeth.

***OPSIWN 6***
**O blaid**
Gwell cyfathrebu a chyd-drafod.

Y Bwrdd Croeso yn canolbwyntio ar swyddogaeth strategol a’r ALl ar reoli cyrchfannau ac ôl-ofal.

Swyddogaeth glir i’r Byrddau Croeso Rhanbarthol.

**Yn erbyn**
Cost uchel o gynnal y pedwar Bwrdd Croeso Rhanbarthol, pob un gyda’i staff gweinyddol a’i Rheolwr Gyfarwyddwr ei hun sy’n gwneud y strwythur yn anghynaladwy.

Ni all corff aelodaeth weithredu cynllun grantiau gan fod gwrthdaro o ran diddordebau yn anochel.

Gwrthdaro o ran diddordebau gyda’r Bwrdd Croeso a’r ALl yn aelodau llawn o Fwrdd cwmni masnachol.

Methu â chydnabod mai’r prif ddeiliaid diddordeb yw pobl Cymru a phwysigrwydd cynnal eu hamgylchedd a’u diwylliant.

Yna cafodd y chwe opsiwn eu gwerthuso yn erbyn y meini prawf canlynol:

eglurder o ran swyddogaethau a chyfrifoldebau

gwerth am arian gan sicrhau’r defnydd mwyaf cost effeithiol o adnoddau

strwythur sy’n gydnaws â gweithio mewn partneriaeth

cyfathrebu effeithiol rhwng lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a rhwng y sector cyhoeddus a’r sector preifat

canolbwyntio ar gyflwyno targedau ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol

yn atebol ac yn ddemocrataidd

cydlyniaeth effeithiol ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol

sicrhau fod pob corff yn gwneud y gorau o’i gryfderau

cynaladwyedd

Rhannwyd y gweithgor yn dri is-gr_p er mwyn gwerthuso’r opsiynau, cadeiriwyd pob gr_p gan y Bwrdd Croeso ac roeddent yn cynnwys 1 cynrychiolydd CTRh ac 1 cynrychiolydd CLLLC ac o leiaf ddau gynrychiolydd o gyrff masnach. Gofynnwyd i bob is-gr_p

roi sgôr i’r opsiynau unigol ar sail y meini prawf uchod ac adrodd yn ôl gyda chonsensws barn neu gyfartaledd o sgoriau ar gyfer yr opsiynau. Roedd yr is-grwpiau yn gallu rhoi sgôr o 0 i 3 ar gyfer yr opsiynau yn erbyn y meini prawf unigol ac yna gynhyrchu sgôr cyffredinol ar gyfer pob opsiwn. Gwahoddwyd y grwpiau hefyd y nodi unrhyw opsiynau ychwanegol a rhoi sgôr ar gyfer y rheini hefyd. Cyflwynodd un aelod unigol o is-gr_p chweched opsiwn o ddiddymu’r CTRh a gadael i’r Bwrdd Croeso a’r ALl ymgymryd â’u hen swyddogaethau, ond nid oedd unrhyw gefnogaeth i’r opsiwn hwn ac felly cafodd ei ddiystyru. Ni chafodd Opsiwn 6 a gyflwynwyd yn dilyn y cyfarfod gyda’r CTRh ei werthuso. Nodir y sgoriau cyffredinol gan bob un o’r is-grwpiau yn y tabl isod:-

| | Gr_p 1 | Gr_p 2 | Gr_p 4 | Cyfartaledd Cyffredinol |
|---|---|---|---|---|
| Opsiwn 1 | 5 | 2 | 5 | 4 |
| Opsiwn 2 | =2 | 3 | 3 | 3 |
| Opsiwn 3 | 4 | 5 | 2 | 4 |
| Opsiwn 4 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Opsiwn 5 | =2 | 4 | 4 | 3 |

D.S. Mae "=2" yn cyfeirio at Opsiwn 2 ac Opsiwn 5 yn gydradd ail.

Er mai Opsiwn 4 oedd y dewis cyntaf o ran cyfartaledd y sgoriau o bob gr_p, nid oedd unrhyw gonsensws o ran yr ail ddewis.

Er bod yr ymarfer gwerthuso hwn yn gymharol sylfaenol ac anwyddonol, mae wedi galluogi i ni ddarganfod y dewis cyntaf. Roedd hefyd yn amlwg o’r trafodaethau bod cefnogaeth sylweddol i’r egwyddorion canlynol

Y Bwrdd Croeso i fabwysiadu swyddogaeth fwy strategol

Awdurdodau Lleol i ganolbwyntio ar reoli cyrchfannau ac ôl-ofal i ymwelwyr

Yr angen am lais masnach cryf gydag un corff aelodaeth cenedlaethol.

Yr angen i annog ymgorffori Cymdeithasau Twristiaeth fel ‘canghennau lleol’ a hefyd y grwpiau sectoraidd i gyflawni aelodaeth sengl.

Felly penderfynwyd canolbwyntio ar ymchwilio i ymarferoldeb Opsiwn 4, gan sicrhau ei fod yn cyflawni’r egwyddorion allweddol hyn.